

CANU GWERIN

(FOLK SONG)



37 - 2014

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Ann Saer

Is-Gadeirydd

Gwenan Gibbard

Aelodau

Dr E. Wyn James (2010)

Angharad Jenkins (2012)

Emma Lile (2012)

Myron Lloyd (2012)

Trefor Puw (2011)

Morfudd Sinclair (2013)

Menna Thomas (2012)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160 e-bost: rhcgiffiths@btinternet.com

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

LLYFRGELL
GENEDLAETHOL
CYMRU

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
(01970) 610160

Llun y clawr: Ceri Owen-Jones 'Ceri Canada'

Rhifyn 37 – 2014

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol Teledu, Ffilm a Fflat Huw Puw	5
‘Y Methodistiaid laddodd gerddoriaeth werin yng Nghymru’ Rhidian Griffiths	9
Cân ‘Y Glomen’ Meredydd Evans	22
Caneuon gwerin Sir Ddinbych a’r ardal (Darlith Goffa Amy Parry-Williams 2013) Sioned Webb	32
The music of Iolo Morganwg: some further thoughts Ceri Jones	41
Y trên ym maledi’r bedwaredd ganrif ar bymtheg E. Wyn James	57
Coffad: Mary Llewelfryn Davies Rhidian Griffiths	74
Adolygiad Ffion Mair Jones (golygydd), <i>Y Chwyldro Ffrengig a’r Anterliwt</i> (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013), 250tt. Rhiannon Ifans	76
Trem yn ôl Buddug Lloyd Roberts	78
Cynhadledd Fron Olau 2013 Diolch i Mr a Mrs R. Elwyn Griffith am y lluniau hyn o Gynhadledd 2013	81

TELEDU, FFILM A FFLAT HUW PUW



Llan: Einion Dafydd

Mae'n debyg mai i gyfeiriad y cerddorfeydd glan-môr y dylid edrych am fan cychwyn y gelfyddyd o gyflwyno cerddoriaeth ysgafn. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif roedd cerddorfeydd o'r fath yn nodwedd braf ar arfordir gwledydd Prydain. Perfformient stoc o faledi a chaneuon poblogaidd yn ogystal â threfniannau o gerddoriaeth glasurol oedd yn hawdd gwrando arnynt. Erbyn y 1920au ffynnodd yr arddull dan gysgod cefnogol y radio, yn enwedig y BBC Light Programme o 1945 ymlaen. Erbyn y 1950au a'r 60au daeth bywoliaeth i gyfansoddwyr cerddoriaeth ysgafn ar ffurf cerddoriaeth ffilm, radio, a theledu, a defnyddid darnau byrion i gyflwyno rhaglenni. Yn eu plith mae nifer o alawon gwerin. Lluniodd David Fanshawe drefniant o'r hen alaw werin draddodiadol 'Dance to thy Daddy' o ogledd-ddwyrain Lloegr yn arwyddgân i'r ddrama deledu *When the Boat comes in* rhwng 1976 a 1981, ac fe'i defnyddiwyd yn ddiweddar i hysbysebu pysgod cwmni Young. Mae'n syndod pa mor hyblyg y gall hen alaw werin fod!

Un arall a elwodd ar y diwydiant teledu oedd y cyfansoddwr o dras Gymreig, Paul Lewis. Meddai:

I do know that my father assumed he was of Welsh descent as the family was known to have lived in Wales, and a family bible with names of several generations was known to have existed from those times but it passed we don't know where within the family, all of whom are long scattered and mostly dead. In fact I don't believe there are any remotely closely related to me with male offspring who will carry the name on, so it will survive only as a name on my musical compositions!

Meddai'r gohebydd cerddoriaeth Andrew Lamb am gyfansoddiadau Paul Lewis: 'At once music of its time, music in response to popular need, and music that is rewarding to listen to – all attributes of the best light music.' Yn 1963, yn ddyn ifanc ugain oed, fe gyfansoddodd Paul Lewis ei sgôr gyntaf ar gyfer drama deledu. Ers y dyddiau cynnar hynny lluniodd nifer o ddarnau ar gyfer ffilmiau, a chlywir ei gerddoriaeth yn cyfeilio i anturiaethau teledu Orson Welles a Peter O'Toole, yn ogystal ag i *Arthur of the Britons*, *The Prisoner of Zenda*, *Monty Python's Flying Circus* a'r *Benny Hill Show*.

Ond at hyn rwy'n dod. Un arall o lwyddiannau Paul Lewis oedd llunio arwydd-dôn i'r orsaf deledu Westward TV. Cyn dyddiau teledu 24-awr agora'r rhan fwyaf o orsafoedd teledu rhanbarthol eu rhaglen waith ddyddiol am tua phedwar o'r gloch y pnawn. Dangosid cerdyn ac arno wybodaeth yn ymwneud â'r trosglwyddydd ar gyfer y peirianwyr teledu, a chwaraeid agorawd gerddorfaol yn gefndir iddo. Rhoddodd cwmni ITV ryddfraint i Westward Television i wasanaethu de-orllewin Lloegr rhwng 1961 ac 1981. Yn ogystal â logo'r orsaf dangosid ffilm yn cynnwys detholiad o wahanol olygfeydd o ardaloedd yr oedd yr orsaf yn darlledu iddynt (Dyfnaint, Cernyw, rhannau o Wlad yr Haf, a Dorset), a chan fod môr ar dair ochr i ardal ddarlledu Westward Television, mae'n naturiol fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn logo'r cwmni, sef model o'r *Golden Hind*, y llong a fordwyodd o amgylch y byd dan gapteiniaeth Syr Francis Drake rhwng 1577 a 1580.



Un o'r amryfal fersiynau a gafwyd o logo Westward Television

Adlewyrchid thema'r môr hefyd yn yr agorawd, a phob dydd o 1971 hyd 1981 hebryngid y ffilm gan drac sain hyfryd-gynhyrfus Paul Lewis, 'An English Overture'. Alaw agoriadol yr agorawd oedd 'Cân Huw Puw' ('Cei fynd i'r môr ar Fflat Huw Puw ...'), alaw y mae'r rhan fwyaf o gantorion Cymru yn ei chysylltu bob amser â J. Glyn Davies, ac fe'i cyhoeddwyd ganddo yn 1923 yn *Cerddi Huw Puw* (tt. 24–25). Ac felly y bu i holl wylwyr teledu de-orllewin Lloegr ddysgu'r alaw hon a'i mwynhau.

Ac yntau'n enedigol o Brighton, sut y clywodd Paul Lewis yr alaw hon am y tro cyntaf? Wel, nid alaw Gymreig mohoni wrth gwrs. Dywed J. Glyn Davies yn ei ragymadrodd i *Cerddi Huw Puw* (t. xvii) mai '*Miss Tickletoy kept a school; a sea song from Captain Frank Davies's singing, not a shanty*' ydyw. Arfer J. Glyn Davies oedd cymryd alawon oedd wedi cipio'i ddychymyg, a'u haddasu at anghenion ei gerddi ei hun, ac anghenion ei gynulleidfa ifanc. Meddai am gyfansoddi ar gyfer plant:

Little remains to be specially said about songs for children. They should not be any sillier than for adults. I have no recipes to offer; it is a matter of one's capacity to enter into the fun and solemn make-believe of youngsters. The rest to a large extent, is the knack of knowing what to leave in the inkpot ... Those who have the instinct for song-writing do not need rules, unless to see how many can be profitably broken; the way of all progress.

Ond i ddychwelyd at Huw Puw. Gofynnais i Paul Lewis am hanes ei ymwneud â Westward Television, a sut y daeth yn gyfarwydd â'r alaw. Meddai:

I was sent a tape of their previous music and asked to use the same folk songs but in versions and sequence of my own devising, which I did, adding my own linking material and company ident flourishes. The first one in my sequence, popularly known as 'I'll go no more a-roving' after the last line of the refrain 'I'll go no more a-roving with you, fair maid' is actually called 'The Maid of Amsterdam'. I've known it since childhood, and certainly

Westward TV or whoever wrote their previous opening music assumed it to be from the English West Country, though it seems to have a long and international pedigree. See the following link:
http://en.wikisource.org/wiki/Maid_of_Amsterdam

Ac felly y daeth, na, nid poblogaeth de-orllewin Lloegr i ddysgu alaw Gymreig, ond plant ac oedolion Cymru i ddysgu alaw werin Seisnig – a'i hystyried yn eiddo cynhenid i ni.

A'r 'English Overture', beth fu ei hanes ar ôl dyddiau Westward Television? Ai trip un ffordd i ebargofiant fu ei thynged? I'r gwrthwyneb. Mae'n dal yn fyw ac yn iach – ac i'w chlywed o dro i dro ar Classic FM.

‘Y Methodistiaid laddodd gerddoriaeth werin yng Nghymru’

Rhidian Griffiths

[Cyflwynwyd y sylwadau isod yng Nghynhadledd y Gymdeithas yn Fron Olau ger Dolgellau, 28 Medi 2013. Cadwyd yma at arddull lafar y cyflwyniad, a phwysleisir mai awgrymu pynciau trafod a chyfeiriadau ymchwil oedd fy nod, yn hytrach na cheisio dadansoddi'r pwnc yn ysgolheigaidd-fanwl.]



Llun: Catherine Griffiths

A gaf i bwysleisio i ddechrau fod y teitl i'w ddarllen o fewn dyfynodau, yn debyg i gwestiwn arholiad slawer dydd, gyda ‘Trafodwch’ ar ei ddiwedd? Ac ar lawer golwg mae’n gwestiwn hawdd. Dwi ddim yn athronydd o gwbl, ond dwi wedi cael achos i edmygu’r athronydd hwnnw a gafodd y cwestiwn hwn mewn arholiad: ‘I ba raddau y mae hyn yn gwestiwn?’ ac a roddodd yr ateb, ‘I’r graddau y mae hyn yn ateb.’ Ac fe fyddai llawer yn barod iawn i gymryd y gosodiad yn y teitl uchod ac ateb ‘Ie’ – a’i gadael hi yno. Ond pe bawn i am lunio ateb i’r cwestiwn mewn arholiad, beth ddywedwn i?

Yn un peth mae’n haws dadlau o blaid y gosodiad nag yn ei erbyn. Rhaid cyfaddef bod crefydd – nid y Methodistiaid, neu Ddiwygiad Efengylaidd y ddeunawfed ganrif, yn unig, ond crefydd gyfundrefnol a fu mor ddylanwadol yng Nghymru o ail hanner y ddeunawfed ganrif trwy’r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i mewn i’r ugeinfed ganrif – wedi dylanwadu’n fawr ar gymdeithas a thrwy hynny ar arferion cymdeithasol, gan gynnwys arferion gwerin. Does dim gwadu hynny, ac ni fyddwn am ei wadu o gwbl. Rŷn ni i gyd yn gyfarwydd â’r math o dystiolaeth. Cymerwch, i ddechrau, y dyfyniad enwog hwn:

The sudden decline of the national Minstrelsy, and Customs of Wales, is in a great degree to be attributed to the fanatic impostors, or illiterate plebeian preachers, who have too often been suffered to over-run the country, misleading the greater part of the common people from their lawful Church; and dissuading them from their innocent amusements, such as Singing, Dancing, and

other rural Sports, and Games, which heretofore they had been accustomed to delight in, from the earliest time. In the course of my excursions through the Principality, I have met with several Harpers and Songsters, who actually had been prevailed upon by those erratic strollers to relinquish their profession, from the idea that it was sinful. The consequence is, Wales, which was formerly one of the merriest, and happiest countries in the World, is now become one of the dullest.¹

Geiriau Edward Jones ‘Bardd y Brenin’ yn y Rhagymadrodd i’w gyfrol *The Bardic Museum* a gyhoeddwyd yn 1802; geiriau gŵr oedd yn ceisio casglu a chofnodi cerddoriaeth draddodiadol Cymru ac yn profi rhwystredigaeth oherwydd bod cantorion a pherfformwyr, dan ddylanwad symudiadau crefyddol, wedi rhoi’r gorau i ganu. Tystiolaeth gyfoes yw hon, nid traddodiad diweddarach; tystiolaeth bendant sydd yn awgrymu bod effaith uniongyrchol ar arferion gwerin trwy ddylanwad pregethwyr efengylaidd, diwygiadol. Dyma dystiolaeth na ellir ei hanwybyddu, gan ei bod yn dod gan lygad-dyst, gan un oedd wedi cyfarfod â phobl oedd wedi newid eu harferion canu a pherfformio, dan ddylanwad tröedigaeth grefyddol. Beth bynnag ein safbwynt crefyddol ni – ein crefyddolder neu ein diffyg crefyddolder – mae’n dystiolaeth sy’n peri siom inni: fel Edward Jones, gresynwn am yr hyn a gollwyd trwy’r newid hwn. Ac fe fyddwn yn naturiol yn cydymdeimlo â’r hyn a ddywed Edward Jones am yr ‘innocent amusements’: onid gwarth yw fod y crefyddwyr surbwch, dihiwmor hyn yn diddychu pobl oddi wrth eu pleserau diniwed?

Mae’r thema hon am ddylanwad andwyol crefyddwyr o gyfnod y Diwygiad Efengylaidd ymlaen yn parhau. Ystyriwch y dystiolaeth hon, a gofnodwyd yn 1894, ac a ddifynnir gan Phyllis Kinney yn *Welsh Traditional Music*:

The introduction of Methodism made a great change in the habits of the people. Dancing was altogether discouraged as profane. My father told me that he remembered an old man, I think about Llangammarch or Abergwessin, who played the harp, but who joined the Methodists or Dissenters, and then gave up the harp, and threw it under the bed, where it lay till it got unglewed and wormeaten, and fell to pieces.²

Nid tystiolaeth gyfoes â'r digwyddiad, ond tystiolaeth anecdotaidd, wedi'i throsglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf: eto i gyd, does dim rheswm i amau'r hyn a ddisgrifir, gan fod tystiolaeth arall yn cefnogi'r disgrifiad – fe wyddom am enghreifftiau eraill o'r un peth. A chyda nerth dylanwad Anghydffurfiaeth sefydliadol yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fe barhaodd y meddylfryd 'Piwritanaidd' hwn yn ei ddylanwad i mewn i'r ugeinfed ganrif. Fe gofiwch mae'n siwr ddisgrifiad John Morris mewn darlith yn 1965, yn sôn am ei brofiadau fel casglwr caneuon gwerin tua 1906–1907:

Hen frawd, pregethwr cynorthwyol – ... petha peryg 'di rheini, cofiwch – o(dd) hwn yn dduwiol ofnadwy, fwy duwiol lawer na'r rhan fwy o bregethwyr. O'n bregethwr cynorthwyol, ac yn byw'm Maentwrog. John Ellis o'i enw o ... râl boi yn ei ddyddiau cynnar, pan odd o'n llanc – un o'r cantorion gora ... A dyma fi i edrach am John Ellis, te. Mi ges de ardderchog, croeso mawr – ond mi t(a)fododd fi, te, mod i'n wastio f'amsar efo'r hen sothach 'ma: "Be ma'r rhein dda i ti? Be ma'r rhein dda i neb?" ... "Chana i'r un iti! Dwi 'di *gorffan* efo'r bywyd yna ers blynyddoedd. Sothach! Sothach! Gin i betha gwell i feddwl amdanyn nhw!"³

A dyna i chi dystiolaeth eto sy'n cefnogi'r gosodiad cyffredinol mai crefydd Cymru laddodd ganu gwerin. Oherwydd dylanwad negyddol crefydd, roedd pobl yn anfodlon i ganu'r hen ganeuon, gan dybio nad oedden nhw'n weddus, yn anfodlon i ganu'r delyn, yn anfodlon i drosglwyddo'r etifeddiaeth werthfawr hon i'r genhedlaeth nesa, i'w thraddodi eto i'w phlant hithau yn drestadaeth dragwyddol. Mwy, roedd y crefyddwyr a'r arweinyddion crefyddol yn ymfalchio yn yr hyn roedden nhw'n ei wneud. Roedd Thomas Charles, Charles o'r Bala, yn dweud yn 1791 na chenid unrhyw delynau yn yr ardal ers misoedd bellach ond telynau aur y saint.⁴ Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ceid ymhlith Anghydffurfwyr yn arbennig deimlad cryf yn erbyn defnyddio offerynnau cerdd yn yr addoldy, ac fe alltudiwyd y ffidil a'r clarinet er mwyn cael cadw at ganu digyfeiliant – dim ond llais dyn, meddai Pantycelyn, i foli Duw – nes i barchusrwydd cyfnod olaf oes Victoria ddechrau dod ag organau i'r capeli. Ond nid yn unig hynny: fe greodd crefydd ddiwygiadol amgylchiadau a oedd yn gwrthweithio ac yn tanseilio'r hyn oedd yn cynnal bywyd ac arferion a chanu gwerin, trwy weithio i ddiddymu ffeiriau, gwylmabsantau a thraddodiadau eraill,

yr hyn y mae Edward Jones yn ei alw'n 'innocent amusements'. Ystyriwch y darn hwn allan o *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn* gan Owen Thomas, yn croniclo digwyddiad tua 1827:

Pan oedd ... [John Jones] yn Abertawy, yr oedd ffair wagedd yno, yr hon a barhai dri diwrnod. Bu y cyfeillion crefyddol yno mor wrol, a rhoddi y bregeth yn *opposition* i'r ffair. Yr oedd ganddynt fantais i hyny. Cynnelid y ffair ar y Maesglas, gyferbyn a'r Capel. Cymmerodd y cyfeillion y rhan o'r Maes, ag oedd yn nesaf i'r Capel, dros ystod y ffair am hanner gini, er mwyn i'r rhai a ddewisent gael lle i ddyfod i wrandaw. Yr oedd y pregethu am ddau yn y prydawn, a thrachefn yn yr hwyr, yn ffenestr y Capel. ... Erbyn chwech, yr oedd y diafol fel wedi ysbrydoli ei weision: – llawer wedi meddwi – dau yn y cwr pellaf yn ymladd wedi ymddiosg – a llawer o chwareuyddiaethau ynfyd yn myned yn mlaen. ... Yr oedd golwg ryfedd ar Mr. John Jones tra y parhiodd y bregeth gyntaf [gan William Williams, Aberteifi]; yr oedd yn hawdd canfod ei fod mewn 'ymdrech meddwl'. Pan gododd i fynu yr oedd ei lygaid yn melltenu, ac yn fuan yr oedd ei hyawdledd tanllyd yn gorchfygu pob peth o'i flaen. Yr oedd teulu y *shopiau gwynion* yn gadael eu *shopiau* ac yn troi i wrando. A'r rhai oedd yn gosod arian ar benau priciau, i hudo ffyliaid atynt i chwareu, yn gadael y priciau a'r arian arnynt, gan dynu yn mlaen i blith y gwrandaŵwyr. Mor rymus oedd dylanwad y weinidogaeth! Tua chanol y Maesglas, i berffeithio y ffair wagedd, yr oedd *fiddler* yn chwareu, a'r rhai mwyaf ymroddgar i wagedd yn dawnsio o'i flaen. Pan aeth nerthoedd y weinidogaeth yn fawr iawn, peidiodd y dawnsio. Nid oedd y *fiddler*, meddai gŵr oedd yn edrych, wedi sylwi ar y cyntaf, fod ei gyfeillion wedi rhoddi i fynu ddawnsio: naill ai yr oedd yn rhy hoff o sŵn y *fiddle* i sylwi, neu, yn hytrach, yr oedd nerth yr efengyl wedi caethiwo ei feddwl yntau hefyd, nes ei fod yn chwareu y *fiddle* heb wybod beth yr oedd yn ei wneuthur. Ac yn lled ddysymwth, dyna yr offeryn cerdd yn cael ei ollwng ar y ddaear, fel yr arian ar benau y priciau, a'r hwn oedd yn ei chwarae yn tynu yn mlaen i wrando y bregeth. Ni bu arfau rhyfel erioed mewn brwydr yn cael eu taflu i lawr gyda mwy o arwyddion colli

y dydd, nag ar Faes glâs, Abertawy, y waith hono. Canys o rhwng pedair a phum' mil o bobl, nid oedd ond o ddau i dri chant, yn y cwr pellaf, o ryw ddieithriad crwydrol, gyda rhyw *Show*, heb adael y gwagedd a throï ar yr efengyl. A dywedir na fu byth wedd ar ffair wagedd Abertawy ar ol hyny.⁵

Nid anodd felly fyddai llunio ateb da, cynhwysfawr i'r cwestiwn arholiad, a chyflwyno digon o dystiolaeth debyg i'r dystiolaeth rwyf wedi cyfeirio at'i'n barod – ac mae digon o enghreifftiau eraill i'w cael – i ddadlau'n gryf fod Methodistiaeth, neu grefydd ddiwygiadol y ddeunawfed ganrif a'r hyn a ddeilliodd ohoni ym mywyd Anghydffurfiaeth Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, wedi lladd cerddoriaeth werin, trwy newid meddylfryd unigolion a ddaeth dan ddylanwad y grefydd efengylaidd a thrwy danseilio'r amgylchiadau cymdeithasol lle roedd arferion gwerin yn ffynnu. Dwi ddim yn meddwl bod modd gwadu'r dylanwad, ac amhriodol fyddai ceisio ei wadu. Yn wir, pe bawn i am lunio ateb arholiad gwahanol, a dadlau'n wahanol, byddai'n fwy anodd o dipyn. Ond er tegwch, dylwn i drio, a phe bawn i'n gwneud hynny, beth fyddwn yn ei ddweud?

Mae a wnelo hanes â phersbectif. Er bod dulliau gwyddonol yn rhan o'n dadansoddi o dystiolaeth hanesyddol, nid astudiaeth gwbl wrthrychol yw hanes. Mae hanes ym mhob cenhedlaeth yn tueddu i adlewyrchu diddordebau a chonsyrns y genhedlaeth honno a'r haneswyr sy'n perthyn iddi: dim ond o fewn y deugain mlynedd diwethaf, er enghraifft, y mae haneswyr wedi ymddiddori mewn gwirionedd yn rôl menywod mewn cymdeithas, a hynny am ein bod ni yn ein cenhedlaeth ni wedi dod i werthfawrogi gallu a chyfraniad menywod a bod cymdeithas yn graddol roi eu lle haeddiannol iddyn nhw. Roedd cyfraniad menywod yno erioed, ond nid oedd wedi ei oleuo gan haneswyr cyfnodau'r gorffennol. Yn yr un modd, mae ein persbectif ni ar yr hyn a ddigwyddodd i arferion a cherddoriaeth werin yn cael ei liwio gan ein hymdeimlad o golled: fe sylweddolwn gynifer o ganeuon a dawnsfeydd ac arferion a aeth ar goll oherwydd y rhagfarn a dyfodd yn eu herbyn dan ddylanwad crefydd a'r 'sefydliad crefyddol'. Ac am nad yw crefydd (neu grefydd gyfundrefinol o leiaf) yn agos mor ddylanwadol bellach mewn cymdeithas, a llaweroedd wedi gwrthryfela yn ei herbyn, mae'n ffasiynol i dadogi colledion fel hyn yn gyfan gwbl ar ddylanwad mudiadau crefyddol, a galw'r dylanwadau hynny'n ddylanwadau negyddol ac andwyol.

Ond fe dâl i ni yn un peth gadw mewn cof natur y dystiolaeth. Doedd gan Edward Jones ‘Bardd y Brenin’ ddim llawer o gariad at y Methodistiaid beth bynnag, ac roedd yn siŵr o weld eu dylanwad nhw’n ddylanwad negyddol. Ar y llaw arall, roedd arweinydd Methodistiaidd fel Thomas Charles yn rhwym o weld dylanwad y pregethwyr yn beth dyrchafol, ac ni fyddai’n cyfrif tranc arferion gwerin yn beth colledus o gwbl. Tystiolaeth unochrog o ran ei geirfa a’i dadansoddiad o’r digwyddiad yw tystiolaeth hagiograffaidd *Cofiant John Jones, Talsarn* gan mai un o amcanion pennaf y gwaith hwnnw yw dyrchafu grym a dylanwad John Jones fel pregethwr. Fel mor aml, delio yr ŷm ni â barn pobl, ac mae’r hanesydd yn gorfod pwysu a mesur hynny wrth drafod ei dystiolaeth. I roi i chi enghraifft ddiweddar: pan fu farw Margaret Thatcher yn 2013 cafwyd llu o ymatebion i’r newyddion ar wefan y BBC – rhai yn ei channmol, eraill yn ei cholllfarnu. I hanesydd ymhen hanner canrif bydd y fath dystiolaeth yn werthfawr, ond go brin y byddai cymryd y naill safbwynt neu’r llall yn arwain at gloriannu credadwy a chytbwys ar ei gyrfa wleidyddol.

Fe fyddwn i wrth reswm yn cydnabod pwysigrwydd dylanwad crefydd: mae yna wirionedd anwadadwy yn yr hanesion am bobl yn taflu eu telynu ac yn gwrthod ailganu caneuon, a hyn yn golygu colled o ran yr etifeddiaeth i’r cenedlaethau oedd yn dilyn. Fe fyddwn i’n cydnabod hefyd fod y dylanwad hwnnw wedi para – fe welwch fy mod, yn rhyfygus braidd, wedi cyplysu uchod dystiolaeth o’r ddeunawfed ganrif a thystiolaeth o ddechrau’r ugeinfed. Ond fe fyddwn i hefyd yn pwysleisio bod dylanwadau eraill ar waith.

Bydd rhai ohonoch yn cofio cyflwyniad a gawsom yma ychydig flynyddoedd yn ôl ar alawon gwerin Gwyddeleg. Mae rhai yn rhamantu am draddodiad gwerin Iwerddon gan ddweud bod y traddodiad hwnnw wedi byw yn iach ac yn ddi-dor yn y tafarndai ar hyd y cenedlaethau am na chafodd Iwerddon ddiwygiad efengylaidd na dim byd tebyg i danseilio’r traddodiad. Purion. Ond mae’n deg cofio hefyd na chafodd Iwerddon Chwyldro Diwydiannol chwaith. Er i bobl cefn gwlad Iwerddon brofi’r tlodi mawr a yrrodd laweroedd ohonyn nhw i adael eu gwlad a mynd i Gymru neu i Loegr neu’r Unol Daleithiau, chawson nhw ddim y profiad o Chwyldro Diwydiannol a’r datgymalu ar gymdeithas a fu’n fodd i symud pobl o gefn gwlad Cymru ac o gymunedau gwledig cymharol sefydlog i bair cymoedd y de (y ‘melting pot’ fel y cyfeirir ato yn hanesyddiaeth UDA). Ddylen ni ddim tanbriso pwysigrwydd y newidiadau

a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol a'u heffaith ar gymunedau gwledig a chymdeithas yn gyffredinol. Ddylen ni ddim chwaith anwybyddu newidiadau cymdeithasol mwy cyffredinol – yr ymbarchuso yng nghyfnod Victoria, y pwyslais cynyddol ar addysg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y troi cefn bwriadus ar hen arferion ac ar yr iaith Gymraeg. Beth bynnag ein barn ni heddiw am hynny i gyd, mae'n rhan o wead yr hanes.

Ac fe fyddwn i'n tynnu sylw at y ffaith fod tystiolaeth o gyfnodau'r gorffennol nid yn unig yn cyfeirio at ddylanwad crefydd ond hefyd yn awgrymu bod llawer o bethau'n cael eu colli trwy anghofrwydd, marwolaeth, a newid mewn cymdeithas. Yr un Edward Jones sy'n collfarnu'r Methodistiaid am ladd cerddoriaeth werin sy hefyd yn nodi bod telynorion yn methu trosglwyddo eu *repertoire* o donau i rai iau, sy hefyd yn dweud bod cerddoriaeth yn dirywio o ddiffyg parhad nawdd gan yr uchelwyr yn y plastai, sy hefyd yn nodi ei fod wedi colli llawer trwy farwolaeth y telynorion:

The following tunes, songs, poems, and history, are the result of some years research and labour, collected, and adjusted at intervals. The greatest part of these melodies I have committed to writing from hearing them sung by the old people, and from their being played by the most venerable Harpers, in North Wales; and it is very fortunate that I did so, because most of them are since dead.⁶

Doedd Morysiaid Môn ddim yn gyfeillion i'r Methodistiaid, ond doedden nhw hyd yn oed ddim yn tadogi pob drwg ar yr *enthusiasts* crefyddol. Ystyriwch y cwestiwn syml hwn, a geir mewn llythyr gan Richard Morris at ei frawd William ym mis Mawrth 1760:

Ydyw'r canu Gwirod yn parhau fyth, ynte colli o'r byd y mae, fal yr hen Fiwsig Gymraeg?⁷

Yr awgrym a geir yma, rwy'n tybio, yw fod pethau'n mynd i golli beth bynnag, nid yn unig trwy ddylanwad crefyddwyr: yn 1760 doedd dylanwad y Methodistiaid ddim wedi cyrraedd Môn hyd yn oed.

Cymharwch sylwadau John Morris wrth sôn am gasglu yn 1906–7. Nid dim ond o achos rhagfarn grefyddol y diflannodd caneuon, meddai:

Mynd i dŷ rhyw hen wraig i ffarwelio â hi cyn dod nôl i'r coleg, a rhyw ferch yn ista ar stôl yn ymyl tân. Cathrin Jên oedd ei henw hi. Oedd hi newydd gladdu 'i gŵr, Robin ... [yr hen wraig yn canu 'Mynwent eglwys' "ar ôl Robin" ac yn torri i lawr, a John Morris yn trefnu i'w gweld hi eto] ... Ond cyn imi fynd adra ddiwedd y term oedd Cathrin Jên wedi mynd ar ôl Robin. A wyddoch chi, un o drasiedia mwya alawon gwerin Cymru ydi hyn: nad oedd yna ddim *digon* ohonon ni ar y maes, wedi inni ddechrau'u cael nhw, i hel rhagor ohonyn nhw. Mi gollais i ugeiniau! Pobol ôn i'n *gwbod* bod nhw'n gwbod rhagor, a finna'n disgwyl am y cyfla i fynd yn ôl atyn nhw. Mynd yn ôl atyn nhw – a nhw wedi marw.⁸

Mae'n ddiddorol yn y cyswllt hwn sylwi ar y darlun a beintir gan J. Lloyd Williams yn rhifynnau cynnar Cylchgrawn y Gymdeithas Alawon Gwerin pan oedd y gwaith o gasglu yn ei anterth, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Nid symudiadau crefyddol yw'r unig elfen, na'r brif elfen, sy'n cael ei nodi ganddo yn gefndir i ddiffaniad alawon:

Another difficulty is the direct result of changed social conditions and of a vitiated musical taste. The old farm gatherings have been abolished by improved means of locomotion, enabling people to attend week-night meetings of various kinds. The degeneration of musical taste is observable in two directions. Our best amateur singers grow up believing that the national melody is too simple to sing, while young people in the towns are demoralized by *pierrot* and music-hall songs. It often happens that the children of parents who were famed for their knowledge of the old music, though themselves musical, take no interest whatever in the melodies.

Through the various causes above mentioned, the loss of interesting songs must have been very serious, and it still continues. The collectors are so few, and have so little time at their disposal to visit old people in out-of-the-way neighbourhoods, that one

often hears of the death of some old singer before one has had a chance of securing any of his store of melodies.⁹

Tebyg yw sylwadau awdur arall, sy'n dod o wlad a diwylliant gwahanol:

Although each generation preserves from its childhood the songs which the preceding generation has given to it, the songs created in its own generation take precedence. The great-grandchild knows less of his great-grandmother's songs than the grandchild did. In this way, songs that deserve to be remembered in a nation's song heritage can easily disappear.¹⁰

Fe fyddwn i hefyd yn tynnu sylw at ddylanwad mudiadau cerddorol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gyfrannodd at ddisodli diddordeb yn yr alawon gwerin, fel yr awgrymodd J. Lloyd Williams. Roedd y rhain â chysylltiadau crefyddol a chymdeithasol (mudiad dirwest er enghraifft), ond gellid dadlau hefyd mai symudiadau addysgol oedden nhw yn y bôn. Tyfodd canu corawl mewn poblogrwydd a daeth yr Eisteddfod yn llwyfan i fwy o ganu 'clasurol', gan borthi'r dybiaeth a nodir gan J. Lloyd Williams fod caneuon gwerin 'islaw sylw'. Gallwn o'n persbectif ni heddiw resynu at hyn, ond dyna feddwl y cyfnod. Rwyf wedi dyfynnu o'r blaen eiriau yr Athro David Jenkins, Aberystwyth yn *Y Cerddor* yn 1910, sy'n disgrifio'r hyn a gofiai o'i blentyndod yn Nhre Castell, sir Frycheiniog (fe'i ganwyd yno yn 1848, felly sôn y mae am yr 1850au a dechrau'r 1860au):

Yn ffodus i'n chwaeth, cychwynwyd côr yn y lle, a dechreuwyd dysgu 'Yr Haf', 'Yr Afonig', a 'Gwanwyn' (Gwilym Gwent) ... [a darnau eraill] ... fel y cawsom ddigon ar ganu ffwlbri 'Yr Afr' [sef fersiwn o 'Cyfri'r Geifr'] ...¹¹

Hynny yw, chwaeth gerddorol cyfnod oedd ar waith lawn cymaint ag unrhyw ddylanwadau o du crefydd, er cydnabod eto fod digon o gyswllt rhwng y ddeubeth.

Fe fyddwn i hefyd yn pwysleisio elfennau parhad a chydberthynas. Er cryfed y dylanwadau crefyddol, fe barhaodd tafarndai a ffeiriau drwy'r cyfnod: mae perygl

inni orbwysleisio dylanwad crefydd am fod llawer o'r dystiolaeth yn dod o du'r crefyddwyr. Dylem gofio bod Cyfrifiad 1851, lle y cyfrifwyd pennau cynulleidfaoedd Cymru am yr unig dro mewn Cyfrifiad swyddogol, yn awgrymu taw tua 40% o boblogaeth Cymru a fynychodd le o addoliad ar Sul y Cyfrifiad, 30 Mawrth 1851 – nid mwyafrif y boblogaeth o bell ffordd.¹² Roedd baledwyr yn dal i ganu baledi i mewn i'r ugeinfed ganrif, a phoblogrwydd papurau newydd, nid nerth crefydd, a ddaeth â'r rheini i ben; roedd tafarndai yn dal yn eu bri ar hyd y cyfnod a'r arfer o ganu a dawnsio yn para ynddyn nhw, a chasglwyd ambell alaw werin mewn tŷ tafarn yn yr ugeinfed ganrif.¹³ Ond mae gennym lawer iawn llai o dystiolaeth ddogfennol am y bywyd hwnnw, bywyd amgen cymdeithas, i'n helpu i bwysu a mesur ei arwyddocâd.

Ac roedd newid cymdeithasol ac arferion crefyddol yn cydblethu â'r traddodiad gwerin mewn ffyrdd cynnil a chymhleth. Beth, er enghraifft, fyddai tynged ein hanthem genedlaethol oni bai am y mudiad corawl? Lluniwyd y gân 'Hen wlad fy nhadau' gan Evan a James James yn 1856 ac fe'i cenid mewn tai tafarn (telynor tafarn oedd James James) a'i hargraffu ar daflenni baled. Petai wedi aros yn y cylchoedd hynny efallai y byddai wedi ei chofnodi gan gasglwr alawon gwerin ym mlyneddodd cynnar yr ugeinfed ganrif o ganu un o hen drigolion Morgannwg; ond go brin y byddai wedi tyfu'n anthem genedlaethol. Yr hyn a'i cododd i'r statws hwnnw oedd iddi gael ei thynnu i mewn i fyd canu llwyfan a chanu corawl trwy ei chyhoeddi yn nhrefniant Owain Alaw yn *Gems of Welsh Melody* yn 1860 – oddi yno y tyfodd yn gân genedlaethol.¹⁴ Ac nid negyddol i gyd oedd dylanwad y Chwyldro Diwydiannol ar ganu gwerin. Oni bai am y chwyldro hwnnw, a'r symud o'r wlad i'r dre, ni fyddai gennym 'Cân Merthyr', sy'n adlewyrchu'r gwrthdaro ieithyddol yn nhrefi Morgannwg lle roedd yn rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg gystadlu â'i gilydd, na 'Cân y Cardi', sy'n ddarlun byw o brofiad a geirfa'r glöwr yng ngenau un a symudodd o gefn gwlad i'r pwll glo.

Ac mae'r traddodiad crefyddol a'r gwerinol yn ymgorddeddu trwy fodolaeth tonau'r byd a'r betws (alawon sydd wedi goroesi ar ffurf seciwlar a ffurf grefyddol); trwy barhad alawon Cymreig mewn ffurf emynyddol olygedig; a thrwy drosgrwyddiad. Nid un traddodiad yn llêr llall a welwn, ond dylanwad o bob ochr. Ystyriwch enghraifft arall o'r un ddarlith gan John Morris, yn trafod ei brofiadau fel casglwr caneuon gwerin. Sôn y mae am ymweld â chyfarfod gweddi yng nghapel bach y Babell yng Nghwm Cynfal, a chlywed yno ganu

gwerinol iawn ei natur, hanner canrif wedi sefydlu'r gymanfa ganu a thyfu o'r arfer o ganu pedwar llais:

... oedd yna godwr canu: Robin Wmffra'r Cŵn ... dyma fo'n cael y gadair, te, a gosod hi yn deidi. Wedyn dyma fo i fyny hi, a sefyll ar ben y gadar – a cofiwch chi, doedd yna ddim pymthag yno i gyd. Wedyn, 'ma fo i boced 'i wasgod: Hm! Hm! Hm! Hm! Ho! – ac oeddau nhw i gyd yn seinio'r nodyn hefo fo. A dyma ddechra te; pob un yn dechra canu. Wel, wyddoch chi, feddylies i fasa fo'n byrstio. Oedd gwythienni ei wddw fo, oeddau nhw'n sticio allan y-chi, a Robin â'i holl nerth yn canu! A dyma i chi (y) peth oedd yn od, oedd yna amryw arall – oedd pawb yn canu – rhai'n *trio* canu'r un noda â Robin, a'r lleill yn canu rwbath-rwbath tebyg i beth glywodd yr hen foi 'na aeth drwy Gymru ... yr esgob 'na ... Gerallt Gymro, ia. Rhai'n *trio* gneud beth oedd hwnnw'n ddeud oedd o wedi glywad – dwi'm yn goelio fo am funud. Ond wyddoch chi beth oedd yn od? Doedd dim un o'r rhein yn canu'r un nodau. Dyna i chi'r *harmony of discords* mwya gogoneddus glywis i erioed.¹⁵

Onid disgrifiad o ganu gwerin a geir yma, a hynny mewn cyd-destun crefyddol?

Gellir awgrymu hefyd fod y gwerinol wedi para yn ei ddylanwad trwy'r crefyddol. Yn 1906 pan gyhoeddwyd y casgliad Anglicanaidd dylanwadol o emynau a thonau, *The English Hymnal*, cynhwysodd y golygydd cerdd, Ralph Vaughan Williams, nifer o donau Cymreig yn y casgliad. Roedd rhai ohonynt yn alawon traddodiadol a oedd eisoes wedi symud i fyd yr emyn-dôn – yr alaw 'Joanna' er enghraifft, neu 'St Denio' fel y mae yn yr *English Hymnal*, sy'n alaw faled neu'n alaw ddawns. Ond roedd sawl un hefyd yn donau cyfansoddedig – 'Llanfair' gan Robert Williams, Llanfechell, 'Hyfrydol' gan Rowland Hugh Prichard, y Bala, 'Gwalchmai' gan J. D. Jones, Rhuthun, ac 'Ebeneser' (sef 'Tôn y Botel') gan T. J. Williams, Rhos, Pontardawe. Enynnai'r rhain edmygedd Vaughan Williams am eu bod yn syml ac yn gadarn, ac yn wahanol iawn eu naws i lawer o donau Anglicanaidd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Lloegr. Mae'n wir mai ar gyfer cynulleidfaoedd crefyddol y cyfansoddwyd y pedair, ond yr hyn sy'n drawiadol amdanynt yw fod eu halawon i gyd yn symud o fewn

cwmpas cyfyng o nodau, nodwedd sydd yn amlwg yn llawer iawn o'n caneuon gwerin. Hynny yw, roedd y dylanwad gwerinol yn para – yn ymwybodol neu'n anymwybodol – yng ngwaith y cyfansoddwyr hyn. Ac nid ar un cyfnod yn unig: cyfansoddwyd 'Llanfair' rywbryd cyn marwolaeth Robert Williams yn 1818, ond ni luniwyd 'Ebeneser' tan 1896, pan oedd y dylanwadau crefyddol Anghydffurfiol wedi bod yn eu grym ers cenedlaethau. Roedd y gwerinol yn byw trwy'r crefyddol. Wedi i'r tonau hyn ymddangos yn yr *English Hymnal* daethant yn adnabyddus nid yn unig yn Lloegr ond mewn gwledydd eraill, ac aeth rhywbeth o ganu gwerin Cymru dros y byd.¹⁶

Rwy'n cofio dychwelyd i'r coleg ar ddiwedd bore cyntaf fy arholiadau gradd a chwrdd â chyfaill oedd yn astudio'r gyfraith. 'Sut aeth hi?' meddai. 'O,' meddwn i, gan wybod am ei ddiddordeb ef yn hanes y gyfraith, 'cawson ni gwestiwn ar ddiwygiadau cyfreithiol Harri II.' Cwestiwn daufiniog ydoedd, yn holi a oedd y diwygiadau o fudd i'r Goron neu i gymdeithas yn gyffredinol. 'Beth atebaist ti?' meddai'r cyfaill. 'Wel,' meddwn i, 'yn y tymor byr i'r Goron, ond yn y tymor hir i gymdeithas yn gyffredinol.' 'A,' meddai, 'ateb nodweddiadol yr hanesydd: ie a nage.'

'Y Methodistiaid laddodd gerddoriaeth werin yng Nghymru.' Ie – a nage.

NODIADAU

¹ Edward Jones, *The Bardic Museum* (Llundain, 1802), t. xvi.

² Dyfynnir gan Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Cardiff, 2011), t. 177.

³ John Morris, 'Y "Canorion" a'r casglu cynnar', *Canu Gwerin*, 13 (1990), 5–28, ar dud. 26.

⁴ Dyfynnir yn Kinney, *Welsh Traditional Music*, t. 177.

⁵ Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn ...* (Wrexham, [1874]), tt. 181–3.

⁶ Jones, *Bardic Museum*, t. xi.

⁷ *Additional Letters of the Morris of Anglesey (1735–1786)*, transcribed and edited by Hugh Owen (London, 1947–49), t. 960.

⁸ Morris, 'Canorion', 25–6.

⁹ [J. Lloyd Williams], 'Editor's Introduction', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, 1 (1909–14), 19–20.

¹⁰ Burl Ives, *The Burl Ives Song Book: American song in historical perspective* (New York, 1953), t. 5.

¹¹ *Y Cerddor*, 22 (1910), 137.

¹² John Davies, *Hanes Cymru* (London, 1990), t. 412.

¹³ Tystiodd Ivor D. Thomas, er enghraifft, iddo gasglu'r gân 'Pan 'ro'wn i yn y goedwig' 'mewn tafarndy yng Nglynedd tua 1912/13, ar ôl gêm o rygbi', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, 4 (1948–54), 85.

¹⁴ Ceisiais drafod hyn mewn darlith i Gymdeithas Hanes Morgannwg ar achlysur dathlu 150 mlynedd yr anthem yn 2006: Rhidian Griffiths, 'Hen Wlad fy Nhadau in its musical context', *Morgannwg*, 51 (2007), 6–18.

¹⁵ Morris, 'Canorion', 20.

¹⁶ Am gefndir cyhoeddi'r tonau hyn gweler Rhidian Griffiths, 'Welsh tunes in *The English Hymnal* yn *Strengthen for service: 100 years of the English Hymnal 1906–2006*, edited by Alan Luff (Norwich, 2005), tt. 223–9.

CÂN 'Y GLOMEN'

Meredydd Evans



Pwt o ragymadrodd. Pan ofynnodd y Golygydd caredig imi am ysgrif ar gyfer y rhifyn hwn tybiais y gallai ymateb cadarnhaol o'm tu fod yn gyfle i dystio fy mod wrthi yn ceisio cadw addewid a wnes, sbelan yn ôl bellach, sef sgwennu cyfrol a fyddai'n cyd-fynd â *Helar Hen Ganeuon*. A minnau eisoes wedi trafod yn fras hanes y gwaith arloesol o gasglu caneuon ynghyd, bwrw ati wedyn i daflu peth goleuni ar gynnwys geiriau ac alawon rhai ohonynt. Dyna'r syniad gwreiddiol.

Euthum ati yn dalog ddigon gan feddwl y byddai dethol nifer o ganeuon yn ymdrin â 'Helyntion a Swynion Serch' yn rhoi testun pennod agoriadol eithaf derbyniol i ddarllenwyr ac i minnau. Gwae fi. Tyfai'r bennod o dan fy nwylo yn haerllug o hir a daeth yn boenus o amlwg i mi, ymhen amser, ei bod yn mynnu troi'n llyfr. Amdanaf fy hun amheuaf yn fawr y byddaf ar gael i weld y fath beth yn digwydd. Sut bynnag, fel y dwedodd Twm o'r Nant: 'Tra medraf, rhodiaf fy rych.' Yn y cyfamser bydded yr ysgrif hon yn dyst fy mod yn pydru arni, o leiaf, i barchu addewid. Esboniad byr i gloi'r rhagymadrodd. Yr 'Hiraethgan' y cyfeirir ati yn gynnar yn yr ysgrif yw 'Hiraethgan Cilcwm', gem drist-hudolus o gân.

Yn nhrydedd bennod ei lyfr gwych *Dulliau'r Canu Rhydd, 1500–1650* a gyhoeddwyd yn 1952, mae Brinley Rees yn cyfeirio at un math ar gerddi rhydd sy'n agor gydag ymadroddion fel 'Am fi'n Rhodio y kaye', 'A m fi yn rhodio ar foreuddydd', 'amfi yn rhodio koyd yglyn', neu 'fal i roeddwn yn rhodio', 'fel ir oeddwn i mewn rhiw fan', 'fal yr oeddwn ar Dduw Sadwrn', ac ymlaen. Yn y bennod flaenorol (t. 41) dyry ddisgrifiad cyffredinol ohonynt:

Yn y cerddi hyn y mae'r bardd yn rhodio, yn aml ar goedfron ar fore hyfryd o wanwyn, ar adar wrthi'n canu ar y coed gwyrddlas;

neu y mae'n eistedd efallai dan goeden, neu ynteu yn ei wely'n
cysgu ac yn breuddwydio. Fe glyw neu fe wêl ferch, neu henwr,
neu aderyn, neu anghenfil, ac yna daw'r ymddiddan rhyngddynt;
neu ynteu dyry'r ymddiddan a glyw rhwng rhyw ddau arall.

Cawsom enghraifft o gerdd o'r fath (ond ei bod o gyfnod diweddarach) yn achos
'Y Bachgen Main', a chyda chyfarchiad cyffelyb yr egyr 'Y Glomen':¹

2. Y GLOMEN. (*The Dove.*)

Doh B.

{ r :d .l, | f, :- .s, :d .d | t, .l, :- .r :d .l, }

Fel 'roeddwn i ryw fo - re hawddgar, Yng nghwr y

{ f, :- .s, :d .d | t, .l, :- .l, :l, .l, | f :- .s :f .r }

coed ac wrth fy mhlesar; Ac uwch fy mhen ni glywn ryw

{ m .r :- .r :f .m | r :- .r :d .l, | f, .s, :l, .l, :r .r | d .r :- }

g'lomen yn cwyno'n glaf, Ow beth a wna . . am fanwyl gymmar.

2. A nesu wnês yn nes i wrando
Beth oedd y gangen ferch yn gwyno,
A nesu wnês a gofyn iddi
“Y lana o liw, a'r fwyna'n fyw,
Beth yw dy g'ledi?”

Gŵr o Flaenau Ffestiniog, M. H. Thomas, a anfonodd y ffurf hon ar y gân i J. Lloyd Williams a chafodd esiampl arall ohoni yn ddiweddarach oddi wrth R. H. Evans, a'i clywodd hi'n cael ei chanu gan Richard Jones, torrwr beddau yng Ngarndolbenmaen. Hyd yma ni lwyddais i ddarganfod sawl pennill yn union o'r gerdd a ddaeth i'r fei yn y naill ffynhonnell na'r llall, ond pan gyhoeddwyd y gân yn y Cylchgrawn cynhwyswyd troednodyn gan J. H. Davies yn dweud bod saith pennill ar gael yn argraffedig ar daflen faled o dan y pennawd 'Cwyn merch ieuangc am ei chariad'. Ceir gweld arwyddocâd hyn yn nes ymlaen. Yn y cyfamsr, dyma ychydig sylwadau ar yr alaw.

Mae ynddi swyn arbennig ar bwys disgyniad ac esgyniad ei nodau, yn enwedig felly y naid o 6ed tua'i chanol, cyn codi i'r 7fed, sy'n esgor wedyn ar ddisgyniad graddol ac yna'n esgyn i glo pendant. Hynny hefyd yn y modd re, fel yn achos yr 'Hiraethgan'. Ar ffurf cân, yr ymddangosiad hwn yn y Cylchgrawn oedd ei hymddangosiad cyntaf, ond cyhoeddwyd yn gynharach ddwy ffurf ar yr alaw (o dan benawdau gwahanol, sef 'Y fwyn golomen' a 'Cledan') yng nghasgliad Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad*, gyda'r gwahaniaeth eu bod ill dwy yn y modd lleiaf. Yn ôl ei arfer mynnodd golygydd cerddorol y cyhoeddiad hwnnw, D. Emlyn Evans, 'gywiro' alawon modd re i'r modd lleiaf. Gyda llaw, mae gan Llewelyn Alaw yntau fersiwn o'r alaw yn B leiaf. Ar wahân i'r tair enghraifft ddieiriau hyn fodd bynnag dilyn alaw y Cylchgrawn a wneir yn y chwe chyhoeddiad printiedig o'r gân y digwyddaf fod yn gyfarwydd â nhw – ac eithrio 'Y Glomen Wen' a welir yn *Detholiad* 1955 (Undeb Noddwyr Alawon Cymru, 1955). Am ryw reswm di-alw-amdano dewisodd trefnydd yr enghraifft hon newid peth ar ei nodiant, yn arbennig yn y pedwar bar olaf.

Yr hyn sy'n neilltuol o ddiddorol ynghylch y gân yw'r geiriau. Y ffaith yw nad yw'r penillion sy'n gysylltiedig â'r alaw o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen yn ddim ond gweddillion o ffurfiau cyflawnach ar y gerdd a dyry hynny oleuni gwahanol ar y sefyllfa a ddisgrifir ynddi yn wreiddiol. Cyfeiriwyd yn gynharach at y daflen faled 'Cwyn merch ieuangc am ei chariad'. Dyma fel y cyhoeddwyd hi gan John Jones, Llanrwst, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

Fel'r oeddwn i rhyw foreu hawddgar,
Mewn llwyn o goed ac wrth fy mhleser
Ar fy nghyfer mi glywn rhyw golomen,
Yn cwyno'n glaf, Ow beth a wnaif,
Am fanwyl gymar.

Ond nesu wnes yn nes i wrando,
Lle'r oedd y gangen ferch yn cwyno,
Mentro wnes a gofyn iddi,
Y lân o liw, yr hardda'n fyw,
Pa beth yw'th gledi?

Rhyw gledi mawr sydd yn fy mynwes,
A hyny wrth gofio yr hyn a gefais;
Wrth gofio'r mab a'r geiriau mawrion
I'm calon rhoes trwm lewyg loes,
Fe dyr fy ngalon.

Gadewaist fi mewn gerddi'n gynar,
Yn lodes ber yn mlodau mwynder
Gadewaist fi mewn modd rhadlonaf,
Gadewaist fi do yn wael fy mri
Yn yr adwy galetaf.

Gadewaist fi mewn gerddi gwyr[ddion]
Yn lodes ber yn flodau'r meillio[n]
Gadewaist fi do dan cyll crinion;
Canys dyna'r fan a daw fei'm rhan,
Lle torai'm calon.

O cymer galon paid ag wyllo,
Daw haul i d'wynu ar fronydd eto,
A phan ddel, daw'r coed i ddeilio
Mi gofia yn dda pan ddelo'r haf,
Daw'r gweilch i rodio.

Ond ar fy nghyfer mi glywn rhyw glomen
Yn cwyno'n glaf am ei hanwyl gymar
Ac am ei gwddf r' oedd aur yn gylchau,
Lle bu'n faith do lawer gwaith,
Fy nwy fraich inau.

Fel y saif mae'r gerdd yn dipyn o gybolfa. O ystyried cwyn y ferch druan ym mhenillion 4 a 5 gofidio y mae am i'w chariad ei gadael ym mlodau ei hieuenctid, dan goed cyll crinion (cangen o gollen oedd un arwydd o wrthod cariad ddyddiau a fu). Purion, mae hynny'n eglur, ond penagored yw ystyr 'yn wael fy mri / Yn yr adwy galetaf'. Sut mae deall yr ymadrodd hwn? Gallai olygu ei bod wedi 'colli ei henw da'; bod ei chymeriad bellach dan gysgod.

Ar y llaw arall gellid deall y geiriau yn unig fel mynegiant grymus o chwerwder y gwrthodiad. Dychwelaf at hyn cyn bo hir.

Mae'r pennill olaf yntau yn broblemus, yn neilltuol felly y cwpled clo. Er i mi ei ganu droeon yn y gorffennol teimlwn weithiau fod rhywbeth o'i le arno; rhywbeth yn chwithig yn y geirau. Onid canwr y pennill olaf, oedd canwr y pennill cyntaf hefyd? Eithr sut, a pharchu cysondeb, y gallai hynny fod? Awgrym amlwg y pennill olaf yw fod y dyn sy'n holi'r ferch ynghylch ei 'chledi' yn gwybod yn burion beth sy'n ei brifo'n greulon ac mai ef ei hun, a fu'n ei chofleidio 'lawer gwaith', oedd yn gyfrifol am hynny. Yr unig bosibilrwydd arall yw ei bod yn ferch hael iawn ei ffafrau hefo nifer o gariadon, ond nid yw hynny'n cyd-fynd â'r ffaith mai gwrthodiad unwaith ac am byth, gyda hithau 'mewn gerddi'n gynar / Yn lodes ber', yw'r hyn a ddaeth i'w rhan. At hyn i gyd, chwithig dros ben yw cael y ferch yn cyfarch yr ymddiddanwr ym mhennill 3 ac yna'n cyfarch yn uniongyrchol y carwr a'i gwrthododd ym mhenillion 4 a 5.

Mae hyn oll yn arwain rhywun i amau tybed ai camgofio, camddeall, hepgor a chymysgu penillion mewn cerdd gyflawn gynharach sy'n gyfrifol am gowdal o'r fath. Credaf y gellir dangos hynny. Y gwir yw fod o leiaf un daflen faled a thair llawysgrif o'r ddeunawfed ganrif² sy'n cynnwys copïau o'r gerdd ac er bod gwahaniaethau rhyngddynt yr un yw'r sefyllfa gyffredinol a ddisgrifir, sef merch ifanc a dwyllwyd gan gariad, wedi iddi golli ei morwyndod o'i achos, a'i gadael i fagu'r plentyn ei hunan. Caiff ei chynghori a'i chysuro gan ŵr sy'n digwydd dod ar ei thraws: gwylia o hyn allan, meddai, rhag coelio geiriau celwyddog rhai meibion ond cofia nad yw'n ddiwedd byd ac y daw meibion cymwys eto i groesi dy lwybr.

Argraffwyd y daflen faled yng ngwasg Siôn Rhydderch yn 1727, gyda'r gerdd yn un o dair, dan y pennawd 'Blodeu yr Bronnydd', a cheir copi o'r faled hon yn llawysgrif LIGC 11115B a berthynai i Evan Williams, gyda'r dyddiad *January 31st 1777* arni. Nid yw argraffwaith Siôn Rhydderch yn ddifeius o bell ffordd ond gan mai ei fersiwn ef yw'r gynharaf yn y cyswllt hwn dyma hi, ynghyd â'i brychau:

Blodeu yr Bronnydd

1. Rhodio'r oeddwn diwrnod howddgar
Yn y coedydd wrth fy mhleser
Mi glywn Golomen ar fy 'nghyfer
Yn cwyno yn gla' beth a wna am fanwyl gymar

2. At y llwyn yr es i wrando
Lle 'roedd y ganned ferch yn cwyno
Mentro wneuthym ofyn iddi
Fun trowddgar liw lan fwynar fyw beth yw dy gledi

3. Trwm yw'r medddwl sy'n fy monwes
Braw i'w gofio briw a gefais,
Am gofio mab a geiriau mwynion
I'm dwyfron rhoes drom lewig loes a dryllia'r galon

4. Ond braf yw'r fallan ddyddiau Glamai
A ffeind inwr yn llwnflodau [inwr = yw'r llwyn]
Pansyrthis rhair ni bydd cyn hardded,
Frllu'r fin dea hardd ei llun pan gollo ei chairad.

5. Mwyn howddgar Fab a gloeyw ei Gydyn
Di eist f'y anwylyd i mi'n elyn
Ar ol fy nghael yn modd ffyddlona
Gadawodd fi'n wael fy mri, 'n 'radwy gletta

6. Fy 'ngwalch i cofia trom yw'r Galorn
Wrth gofio'r man a'r geiriau mwynion
Y bum i gynai yn dy freichiau
Was hardd ar dwyn ag erfy mwyn gofia dithau

7. Y Pheniccs wych ymhlieth y morwynion
Neu gagen hardd or gwrddi gwyrddion
Oedd fy moddion gan fy nghariad
O dduw gwynfe ddarfu am hyn ni fyn ni mo ngwelad

8. Gwrandu ferch a bydd di gefnog
Daw gweilch i rodio bronydd heulog
Eri'th flodau unwaith syrthio
Daw'r mwyn was glan clyw deulw'r can i'th gofleidio

9. Gwrandu fi fy Mun sy danbleth [sy danbleth = sidanbleth]
Cymmer gyngor fy Anwyl Eneth
Ar ol torri'r cae bydd rhai'n daerach
Am fynd lle bo fun glud heb glo i nofion hyfach

10. Llawer Ferch a aeth i flinder
Wrth gowleidio'r Meibion mwynber
Bydd hi ddydd a nos yn wylu
Ag yntau'n wych yn goleuo'r drych n ysgafn droedio

11. Llawer gwaith y rhoes i hefyd
Yn dyn fy nwylaw am fy Anwyl
Rhoes yntau fy einioes mewn peryglon
Caeth yw hyn wrtho ynglyn mae fy nghalon

12. Dan ei adenydd y cest diddanwch
O'r G'lomen fach fe ddaeth yn dristwch
Ond gwilia etto syrthio i ddrysni
Rag ofn na ddaw ei ddeheulaw i'th gowleidio oth gledi

13. Fy ngwalch ddweida wrth fy nghowleidio
Na fynna fyth er dim fy nigio
Am goelio ei fwynion eiriau howddgar
F'am tynnodd i o'm llawen dŷ i welu o alar

14. F'am cafodd i yn y gerddi cynar
Yn gangen gu dan flodau mwynber
F'am gadawodd dan cyll creinion
Dyma'r fan Duw'n fy roan y thra i nghalon

15. Clyw'r Glommen burfwyn er dy brofi
Daw etto i'th ffasiwn flodau ffansi
Pan ddelo'r gweilch i rodio'r coedydd
Doi dithau'r fiun deg hardd dy lun i'r llwyn llawenudd

W : M

Dynâr gerdd gyda'i stori'n llawn. O'i chymharu ag un Llanrwst gwelir bod cyfatebiaeth rhwng y tri phennill agoriadol, ond rhaid mynd ar wasgar ynddi cyn dod at benillion sy'n cyfateb rhywfaint i'r pedwar olaf a argraffwyd gan John Jones. Cofier imi dynnu sylw yn gynharach at yr amhendantwrwydd yn y geiriau: '... yn wael fy mri / Yn yr adwy galetaf'. Bellach mae eu hystyr yn ddigamsyniol. Sylwer ar y delweddu sydd yn: 'Eri'th flodau unwaith syrthio' ac yn arbennig yn: 'Ar ol torri'r cae bydd rhai'n daerach / Am fynd lle bo fun glud heb glo i nofion hyfach.'

Yn y gerdd gyflawn mae cwynion y ferch yn llanw sawl pennill a'r ymddiddanydd yn amlwg iawn ei gysur a'i gyngor ond, yn y llall, byr yw cwyno'r fun ac un pennill o gysur yn unig a geir gan yr ymddiddanydd; heb y gair lleiaf o gyngor. At hynny nid ymddengys pennill olaf problemus Llanrwst yn y gerdd hir o gwbl ac ni chyfetyb hwnnw ond yn adleisio i eiriau o eiddo'r ferch yn y gerdd hir: 'Llawer gwaith y rhoes i hefyd / Yn dyn fy nwyllaw am fy Anwylyd.' Fel y gwelwn ymhen ychydig daw hyn yn eglurach fyth pan ystyriwn un o'r ddau fersiwn llawysgrifol arall.

Ar y ffordd at hynny mae'n werth dychwelyd am egwyl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac at waith cyhoeddedig y gŵr unigryw hwnnw, John Jones (1810–70). Yng nghyfrrol gyntaf *Gwaith Talhaiarn* (1855) mae'n colbio (nid am yr unig dro) y Cymry hynny sydd 'o dan balf cath lefn-flewog Calfiniaeth, yn tybio nad oes dim barddoniaeth ond mewn rhyw siwtrws o hymnau a rhimynau o ganeuon ffug-dduwiol ... Yr ydym ni, beirdd y dyddiau diweddaf, yn tybio os gallwn nyddu mil o linellau, fod hynny yn gampwaith. Bid siwr, y mae mor hawdd rigmarolio mil o linellau ag yw nyddu pedair; ond pa les, oni bydd enaid, synwyr a doethineb, neu lawenydd a digrifwch ynddynt?'³ Llawer gwell ganddo yw Hen Benillion Cymraeg ac fel enghraifft o hynny dyfynna bedwar ohonynt:

Yr oeddwn hefo'r hwyr yn rhodio
Gerddi gwyrddion i'm comfforddio,
Uwch fy mhen clywn fwyn lymysten,
Oer yw'r loes! beraidd foes, yn uchel ochen.

Nesu wneis i yn 'wyllysgar,
At fwyn ei llais a main ei llafar,
A than ufudd ofyn iddi,
Er mwyn Duw, y fwyna'n fyw, beth yw dy g'ledi?

Dyma'i hatteb hi a'i hesgusion,
Aml gnoc a dyr y galon;
Unig wyf yn mys yr adar,
A'm gado i'n gaeth yma wnaeth fy nghymwys gymmar.

Hardd yw'r 'fallen ddyddiau C'lamai,
Hardd yw'r llwyn sy'n llawn o flodau;
Y Gauaf nid yw rhai'n cyn hardded –
*Felly mun, hardd ei llun, pan gyll ei chariad.*⁴

Sylwer bod y ddau bennill agoriadol yn cyfateb i benillion 'Y Glomen' ond nid yr aderyn hwnnw sydd ar y pren y tro hwn eithr Llymysten. Mae'r alegori yn wahanol a dyna yw'r gwir hefyd am y ddau fersiwn o gerddi'r ddeunawfed ganrif sydd gennym ar ôl i'w hystyried. Mae nifer o wahaniaethau rhyngddynt ond nid oes angen manylu ar hynny yma; yn hytrach nodaf ddau beth yn unig.

(i) Yn y ddwy gerdd fel ei gilydd mae'r ymddiddanydd yn gofyn i'r ferch sut olwg oedd ar ei chymar ('pa liw sydd arno') a chaiff glywed hyn:

Y fo ydi blodeu Coed ag Adar
Y fo ydi'r unig walch di gymar
Ag am ei wddw'r Aur yn Glyche, lle bu'n faith
Lawer gwaith fy Adenydd [wedi'i groesi] inne *Neufraich*⁵

Onid yma y ceir ffynhonnell pennill problemus olaf fersiwn Llanrwst ac onid yma y dileir yr anghysondeb y cyfeiriwyd ato? Pan welir mai'r ferch sy'n llefaru'r cwpld clo daw'r cyfan yn eglur.

(ii) Ar waelod cerdd argraffedig Siôn Rhydderch gwelir y llythrennau ‘W : M’ ond a bwrw mai ef / hi oedd yr awdur ymddengys mai ‘Anad.’ ydoedd ac ydyw. Ynglŷn ag awdur fersiwn LIGC 836D, perthynol i Dafydd Williams, Bode(u)lwyn, Llanfechell (a ddechreuodd sgrifennu ynddi yn 1718, yn ôl Daniel Huws) hawlir mai merch a luniodd honno:⁶

Os daw gofyn pwy a gana
hyn o faled o ddryia
un a difarodd ddarfod iddi
fod mor ffôl a mynd ar ol
y llencyn gweisci

Eithr nid ydym fymryn yn nes at wybod dim amdani. Nid yw’n dilyn chwaith mai merch ydoedd. O ddarllen geiriau’r hen gerdd sy’n agor â’r geiriau ‘Ffarwél i Langyfelach lon’ gallech dybio ar ei diwedd mai merch a’i lluniodd ond gwyddis mai ei hawdur oedd Siemsyn Twrbil (James Turberville).

Dau sylw cyffredinol i gloi. Yn gyntaf, gellir casglu mai, rhywsut neu’i gilydd, gweddillion o fersiwn cerdd y Llymysten a ddaeth i lawr y blynyddoedd hyd at Dalhaiarn. Go brin fod y gerdd gyfan ar ei gof gan mai ei berwyl ar y pryd oedd dyfynnu enghraifft o Hen Benillion yn benodol. Yn ail, ac yn fwy arwyddocaol yn y cyd-destun presennol, awgrymaf ei bod yn bosibl y gwelwn yma faled o dan ddyllanwad newid mewn chwaeth foesol cyfnod cymdeithasol arbennig, yn diosg peth o’i delweddaeth erotig ac yn ymbarchuso rhywfaint.ⁱ

NODIADAU

¹ *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, I, t. 70.

² ‘Cerddi Bangor’ 2, t. 46; llawysgrif LIGC 836D, t. 150; llawysgrif LIGC 9B, t. 21; llawysgrif LIGC 11115B, tt. 360–3.

³ *Gwaith Talhaiarn* (London, 1855), t. 258.

⁴ Ibid. t. 258.

⁵ Llawysgrif LIGC 9B, pennill 5, t. 21.

Darlith Goffa Amy Parry-Williams

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013

CANEUON GWERIN SIR DDINBYCH A'R ARDAL

Sioned Webb

[Agorwyd y ddarlith gyda pherfformiad o 'Ffylantintw']

Pa well ffordd i agor sgwrs am ganeuon gwerin Sir Ddinbych na chyda pherfformiad o 'Ffylantintw', cân o anterliwt. Mae anterliwtiau wrth gwrs yn gysylltiedig â'r ardal hon yn sgil anterliwtiau Twm o'r Nant. Cân yfed yn amlwg sydd yma, meddai Phyllis Kinney yn ei llyfr *Welsh Traditional Music* (t. 124), cân dipyn yn awgrymog ac mae'n bur debyg y byddai dawns yn cael ei chynnwys, dawns Y Ffŵl a'r Cybydd gyda'r enw ardderchog Syr Rhydderch Glemffol o'r anterliwt *'Histori y Dywysoges Genefetha Jonathan Hughes a'i Gwnaeth [Llangollen] y Flwyddyn 1744'* a geir yn Llawysgrif Cwrtmawr 120A yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



*Mair Tomos Ifans, Sioned Webb,
Arfon Gwilym*

Y ddau gymeriad uchod oedd y prif gymeriadau yn yr anterliwtiau. Mae'r Ffŵl gyda'i ddawnsio awgrymog yn cynrychioli'r elfen fwy anniwair tra bod y Cybydd yn cael ei drin fel testun gwawd – dyn annifyr yn dwyn oddi ar ei denantiaid, a rôl y Ffŵl yn aml oedd gwawdio a dwyn anfri ar y Cybydd. Diddorol gweld bod rhai o'r alawon a ddefnyddiwyd yn yr anterliwtiau yn cael eu defnyddio gan

"Ffylan Tin Tw" o'r Dywysoges Genefetha



feirdd neu awduron i ysgrifennu geiriau eraill ac amrywiol arnynt, beirdd megis Huw Morys, Jonathan Hughes, Thomas Edwards (Twm o'r Nant), Ellis Roberts a Hugh Jones. Roedd y rhain yn sgwennu ym mhob arddull – geiriau crefyddol, baledi, carolau plygain ac anterliwtiau fel ei gilydd – doedd na ddim tuedd tuag at un teip neu *genre* yn fwy na'i gilydd, a hwn yw'r casgliad pennaf y daethpwyd ato wrth saernïo'r ddarlith.

Mae fersiwn arall o 'Ffylantintw' yn ymddangos yng nghasgliad John Thomas yn 1752, casgliad a olygwyd mor ddeheuig gan Cass Meurig yn 2004. Ffidlwr, medd rhai, o ogledd-ddwyrain Cymru oedd John Thomas a barnu oddi wrth y dafodiaith a gofnodwyd yn ei gasgliadau, ac enw'r alaw yn ei gasgliad yw *Flaunting Two*. Mae dros 400 o alawon yng nghasgliad John Thomas y ffidlwr, mae'n gofnod ardderchog, ac un o'r rhain yn ddiddorol iawn ydi'r alaw hynod adnabyddus 'Ar Hyd y Nos' a ddefnyddiwyd mewn anterliwt o'r enw 'Ffrewyll y Methodistiaid' (Chwipio'r Methodistiaid), anterliwt wrth-Fethodistaidd a sgrifennwyd rhwng 1745 a 1749. Mae'n amlwg fod John Thomas wedi dilyn yr anterliwt fel ffidlwr ac mae nifer o alawon a geir yn ei gasgliad yn dangos hyn, rhai megis 'Sbonc bogel' a 'Contar dreinsiwr'.

Clywsom lawer yn ystod yr wythnos am Twm o'r Nant a'i anterliwtiau awgrymog. Creadur go frith oedd o ond nid un annysgedig – mi ddaru'i fam o ofalu am hynny. Nid caneuon masweddus ac awgrymog yn unig wrth gwrs oedd ym meddiant Twm o'r Nant. Mae'r alaw odidog 'Hun Gwenllian' ynddi ei hun yn stori ac fe gawn ni'r stori gan Phyllis Kinney yn *Welsh Traditional Music* (tt. 135–7). Ceir cyfeiriad ati mor bell yn ôl â Llawysgrif Robert ap Huw. Gofynnodd y geiriadurwr a'r bardd William Owen Pughe, oedd wrth gwrs â chysylltiadau â Nantglyn, i Iolo Morganwg fynd ar drywydd yr alaw pan oedd hwnnw yng Ngogledd Cymru ar ei deithiau. Daeth Iolo o hyd yn wir i fersiwn o 'Hun Gwenllian' gan neb llai na Twm o'r Nant oedd ym meddiant yr alaw 'as

sung by some poets' (*Welsh Traditional Music* t. 135). Mae nifer o fersiynau o 'Hun Gwenllian' ar gael ond dywed Phyllis Kinney fod y fersiwn a gafodd Iolo Morganwg gan Twm o'r Nant yn nes at fersiwn llawysgrif Robert ap Huw na'r un o'r rhai eraill. Ei nodwedd bennaf yw fod yna ddilyniant cerddorol ynddi hi, sef cyfres o nodau'n ailadrodd ychydig yn is neu ychydig yn uwch.

[Perfformiad: 'Hun Gwenllian' (cofnod Twm o'r Nant), gw. *Welsh Traditional Music* t. 136]

Gan fod Edward Jones, 'Bardd y Brenin' (1752–1854) hefyd wedi cynnwys 'Dadl Dau' yn un o'i gasgliadau, diddorol meddwl felly fod yna strwythur a chysylltiadau rhwng casglwyr a chymrodwr yn bodoli nid yn unig drwy Ogledd Cymru ond ymhellach na Gogledd Cymru. Mae geiriau rhai caneuon yn amlwg yn cyfeirio at hyn. Beth am y 'Cobler Coch o'r Hendy a aeth i brynu cath' ar 'Cobler Coch o Rhuddlan a aeth i brynu cath'? Beth am 'Mam yng Nghyfraith Tu Hwnt i'r Afon'? Mae fersiynau ohoni, meddai Meredydd Evans, yn Llansannan a Rhuddlan.

Un enghraifft arall ddiddorol i mi yw 'Cân Hela'r Dryw'. Mae'r arfer wedi mynd a dod, ond mae cofnod o'r arferiad yn llyfr Rhiannon Ifans, *Sêrs a Rybana* (Llandysul, 1980) yn ogystal â chofnodion Trefor M. Owen yn Sain Ffagan. Caneuon holi ac ateb oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw. Mae na un amrywiad wedi'i gofnodi gan Mostyn Lewis Gresford ger Wrecsam yn 1976, ac yntau wedi cael y gân gan gefnder i'w dad, John Lloyd, Plas Llangwyfan, Rhuthun, oedd yn ei chanu hi'n aml ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae na lawer o amrywiadau ar gân Hela'r Dryw, ond sylwer bod fersiwn 'Rhuthun' yn y cywair lleddf. Diddorol meddwl sut ddaeth na gân sy'n olrhain arferion Sir Benfro yn fwy nag unlle arall, i ochre Rhuthun, ond mae hynny'n destun darlith arall. Sylwch mai dim ond pum nodyn sydd yn y gân i gyd – peth cymharol anarferol a chyda rhythm siant bron iawn iddi. Am y rheswm yna, dwi am geisio'i chanu hi!

Cân Hela'r Dryw

B'le rwy't ti'n mynd me-dda Di-bin wrth Do-bin, B'le rwy't ti'n mynd me-dda Ris-ia't wrth Ro-bin,

B'le rwy't ti'n mynd me dda John, — B'le rwy't ti'n mynd me-dda'r Ne-far Be- yond

Ble mae Sir Ddinbych? Ble yn union mae'r ffiniau? Yn ddaearyddol, mae wedi newid llawer wrth gwrs dros y blynyddoedd. Ffurfiwyd y sir bresennol ar 1 Ebrill 1996, dan Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru (1994), gan gynnwys ardaloedd Rhuddlan, cymunedau Trefnant a Chefnmeiriadog o ardal Colwyn a arferai fod yn Sir Ddinbych, a'r rhan fwyaf o ardal Glyndŵr yn cynnwys Edeyrnion ym Meirionnydd gan gynnwys Betws Gwerful Goch, Corwen, a Llandrillo. Rhannau eraill o'r hen Sir Ddinbych yw Sir Conwy heddiw ac yn y blaen ac yn y blaen, gan gynnwys rhannau fel Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Mae'n ymestyn heddiw felly o ardaloedd Llandrillo yn y de-orllewin i ardal Llangollen yn y de-ddwyrain, hyd at Ruddlan yn y Gogledd. Mae Llanrhaeddar-ym-Mochnant yn sefyll jest i'r ochr iawn o'r afon i fod yn Sir Ddinbych. Mi welwch felly mai 'Caneuon Sir Ddinbych *a'r ardal*' ydi teitl y ddarlith! Yn y sir amrywiol hon, mae sawl ardal wahanol o ran natur gwaith a diwylliant, ac mae'r caneuon sy'n tarddu o'r ardaloedd hynny yn adlewyrchu'r amryfal amgylcheddoedd. Yn fras, nid yn unig mae eu cynnwys yn amrywio, ond eu haniaen yn ogystal. Y mae gwahaniaethau rhwng caneuon o ardaloedd amaethyddol Dyffryn Clwyd o'u cymharu ag ardaloedd mwy diwydiannol y 'sir'.

Mae unrhyw ganeuon gwerin sy'n deillio o ardaloedd amaethyddol wrth reswm yn olrhain ac yn arddangos arferion amaethu. Mae'r caneuon nid yn unig yn gofnod cwbl werthfawr o'r hyn a ddigwyddai mewn arferion amaethu – yr offer a ddefnyddiwyd ac yn y blaen, ond hefyd yn gofnod amhrisiadwy ac yn gipolwg ar y math o fywyd yr oedd y gymuned wledig yn ei byw.

Mi roeddau nhw'n dlawd. Doedd na ddim arian yn yr haen isaf o gymdeithas. Dyna'r casgliad cyntaf y down ni iddo fo. Cymrwch y gân werin 'Mae'n gystal gen i swllt na fy mywyd bach'. Cân sydd ar dâp yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Recordiwyd hon gan y Parchedig H. Cadnant Griffiths (gweinidog, g. 1896), Mayfair, Sydenham Avenue, Abergele, Sir Ddinbych. Pan oedd Griffiths yn blentyn bach clywodd y gân hon gan hen wraig a'i canodd hi i'r plant yn ysgol Pentrefoelas. Ac yr oeddau nhw hefyd yn dyheu am wario – am *fedru* gwario.

Mae'n gystal gen i swllt â fy mywyd bach i
Ceiniog i wario a cheiniog i swagro
A deg i fynd adre i fy Ngwenno bach i.

Mae'n gystal gen i ddeg â fy mywyd bach i
Ceiniog i wario a cheiniog i swagro
Ac wyth i fynd adre i fy Ngwenno bach i ...

Un arall sy'n awgrymu tlodi ydi 'Ddaw Hi Ddim'. Mi'i canwyd gan Gwilym Morris Llanefydd yn ystod cwrs bwrw Sul Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yng Ngregynog yn 1985 a chofnodwyd hi gan Phyllis Kinney. Dysgodd Gwilym hi, meddai, gan hen fugail mewn swper bugeiliaid a gynhaliwyd yn nhafarn Bryn Trillyn ar fynydd Hiraethog tua'r flwyddyn 1915. Cyfrifir hi yn ôl Meredydd Evans yn un o ganeuon difyrus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Awdur y gerdd oedd Richard Davies 'Mynyddog' (1833–77) ac fe'i cyhoeddwyd yn *Gwaith Mynyddog Cyfrol 2* gyda Rhagair gan O M. Edwards (Llanuwchllyn: ab Owen, 1915), tt. 19–20; mae'n ddiddorol sylwi ar y gwahaniaethau sydd rhwng y fersiwn a genir heddiw, a'r hyn a gyhoeddwyd yn 1915. Mae'r canwr yn sôn drwy'r gân am griw mawr o bobol yn gofyn am arian i'r datgeinydd sy'n dweud y stori, ac yn y diwedd, mae'r canwr yn dod o hyd i'r ateb drwy ystyried priodi gwraig weddw oedd yn hanner cant, dim plant ganddi, a llond drôr o arian ganddi hefyd. Ond ddaw hi ddim ...

Rwy'n adwaen ffrind, ei arfer yw benthycu pres'n ddi-rôl
Er nad yw y llencyn gwyn yn meddwl talu'n ôl;
Rhyw fis yn ôl fe'i cwrddais ef yn myned tua'r ffair
A gofyn wnaeth y llencyn gwyn am fenthyg tri a thair.
(Llefaru) Wel, meddwn i fe caet nhw a chroeso, ond gan fod pobol yn siarad fel
y maen nhw amdanat ti, rwy'n meddwl na – Ddaw hi ddim ...

Fe fuom i ers blwydd neu ddwy ar bwynt priodi un,
Cyn mynd at allor llan y plwy, fel hyn gofynnai'r fun:
Mae gen i fam a phedair chwaer sy'n annwyl iawn i mi,
A gaiff y rhain, drwy fegio'n daer, gyd-fyw ar ein heiddo ni?
(Llefaru) Wel, meddwn i, rydwi'n siwr bod byw hefo'ch teulu yng nghyfraith
yn beth nobl iawn, ac mi wn i na ddylai pawb fyw hefo'i fam yng nghyfraith.
Ond dan yr amgylchiadau, rwy braidd â meddwl na ... Ddaw hi ddim ...

Dywedodd cyfaill wrthyf fi fod ganddo hanes merch
A wnaî y tro i'r dim i mi i fod yn wrthrych serch;
Gwraig weddw oedd, yn berchen stôr o bopeth, heb ddim plant,
Roedd ganddi arian lond dwy ddrôr ac yn ddim ond hanner cant.
(Llefaru) Digon o bres ddudest ti? Da iawn. Dim plant? Gwell fyth. Ond yr
hen hanner cant yna! Mae'n hen. Na – rwy' braidd â meddwl na ...

Ddaw hi ddim, Os wy'n edrych braidd yn wirion, Ddaw hi ddim, ddaw
hi ddim. Nid mor wirion, Ddaw hi ddim.

[Perfformiad: 'Ddaw Hi Ddim']

Mae'r caneuon gwerin o'r ardaloedd amaethyddol hefyd yn cynnwys 'Yr Eneth
Glafr', o ardal Llansannan – y geiriau'n sôn am salwch a methu gwella. Doedd
ganddyn nhw ddim arian i gyflogi meddygon. Mae ei tharddiad yn aros, hyd
heddiw, yn ddigelwch ond dowch i ni adael i'n dychymyg fynd yn drech na ni
a meddwl am yr hen Sanitoriwm yn Llangwyfan, ychydig dros ddeng milltir i
ffwrdd. Mae Meredydd Evans yn dweud y gall o fentro awgrymu bod blas y
bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y gân a bod gŵr o'r enw John Roberts, Bryn
Rhydyarian, Llansannan, yn cofio'r gân fel y'i canid hi gan un Roger Williams,
tyddynnwr o'r un ardal. Pwy a ŵyr felly nad am y Diciâu, neu'r TB, y mae'r gân
yn sôn, ychydig cyn adeiladu'r Sanitoriwm?

Un enghraifft arall o'r ardaloedd amaethyddol yw'r gân 'Y Wasgod Goch', cân o
ardal Llanddulas sy'n rhoi cipolwg arall inni ar arferion a ffordd o fyw – a dillad
y bechgyn a'r merched oedd yn byw ar y ffermydd. Mae wedi'i thrawsysgrifio o
dâp sydd erbyn hyn yn Sain Ffagan. Mae manylion llawn am y gân yma mewn
erthygl gan Robin Gwyndaf, 'Robert Pierce Roberts a chân "Y Wasgod Goch"
, erthygl a ymddangosodd yn *Canu Gwerin*, 9 (1986). A dyma sy'n ddiddorol:
roedd taid Robert Pierce Roberts, sef Isaac Jones a aned yn 1829, mae'n debyg
yn gwybod llawer o'r hen anterliwtiau ar ei gof. Cofiai Robert Pierce Roberts ei
dad a'i daid yn ei chanu mewn sefyllfaoedd ar y fferm. Canai hi:

yn y tŷ ac ar y buarth os byddai yna rywun diarth yno, ryw
weithiwr yn y cynhaea, pan fyddai hi wedi dod yn wlyb, ne bally,
ac isio mynd i mewn i fochal ... mynd i stabal i mochal. Mi gana

'nhad yr hen 'Wasgod Goch' i godi dipyn o hwyl. Clywish o'n 'i chanu hi ar y cae i ddau neu dri o rai oedd yn gweithio hefo fo yn torri yd. Wedi stopio i hogi, a ryw bath felly. (t. 37)

Mae'r gân yn sôn am y llanc ifanc yn gorwedd yn ei wely yn troi a throsi, ond yn rhyw led-freuddwydio am eneth ifanc yn dod â siwt iddo, a gwasgod goch hefo hi, dillad i'w gwisgo ar ddydd ei hangladd. Mae na gofnod cwbl werthfawr ynddi o'r math o ddillad parch yr oedd y plwyfolion yn eu gwisgo ar ddiwrnod angladd: 'clos o felfad lowddu' (loywddu), 'côt liw du, crys brith, het garlein' (benthyciad o'r Saesneg *Caroline Hat* meddai Robin Gwyndaf, sef het oedd yn ffasiynol yn Lloegr yng nghyfnod y Siarliaid ond oedd yn boblogaidd, mae'n debyg, yng Nghymru hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif), 'ffon gollen' oedd yn cael ei hanfon at garwr gwrthodedig, 'sanau o wân cryddedig' (ffurf dafodieithol ar wân cyfrododedig, sef gwlan wedi'i blethu), 'sgidie o blwm a dur yn fycle' ('plwm' yn drosiadol, mae'n debyg oherwydd roedd y siwt i fod at yr angladd).


Os oedd cyflogaeth yn brin yn yr ardaloedd gwledig, roedd rhai'n gorfod trafaelio er mwyn cael gwaith. Beth am y gân 'Gwn Dafydd Ifan', er enghraifft, o ardal Nantglyn. Cofnodwyd honno gan Mrs Herbert Lewis sef Lady Ruth Herbert Lewis (1872–1946), un o hoelion wyth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. A dyma'r tro cyntaf felly i mi sôn am y wraig ryfeddol yma; hebddi hi, fyddai yna ddim llawer o dystiolaeth a chofnod o ganeuon yr ardal o gwbwl! Cyhoeddwyd 'Gwn Dafydd Ifan' yn y llyfr *Folk Songs – collected in Flintshire and the Vale of Clwyd*, cyfrol a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab Wrecsam (Caerdydd erbyn hyn) yn 1914. Yn fwy gwerthfawr na dim, mae cyfeiriadau lu ynddyn nhw at bob math o fywyd pob dydd. Yn 1969, daeth casgliad o dri deg un o sylindrau ffonograff i feddiant yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, rhodd gan ei merch, Kitty Idwal Jones gyda'r caneuon yma wedi'u recordio arnyn nhw. Wedi'i geni yn Lerpwl, daeth Lady Herbert i Gaerwys. Heb amheuaeth, un o'r ffynonellau pwysicaf i Lady Herbert ymweld â nhw ar ei thrafals o gwmpas y wlad oedd Mrs Jane Williams o'r Wyrwys yn Nhreffynnon. Mi ganodd honno ddwsin a mwy o ganeuon i Lady Herbert. Roedd bywyd mor gythreulig o undonog i'r merched mewn oed – rhai'n eu gwla'u mewn ystafell hir, rhai'n llonydd o gwmpas stôf fawr ddu yng nghanol stafell fawr, gyda dim i'w wneud fel bod yr hen wraig wedi mopio ar ganu'r caneuon i Lady Herbert Lewis. A diolch felly am yr hen wraig o Wyrwys Treffynnon. Un o'r caneuon ydi'r gân

‘Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf’ sy’n sôn am ferch (a’i thafod yn ei boch efallai) yn gwrthod datganiadau cariadus ei chariad, ond yn eu derbyn yn y diwedd. Nid caneuon yn unig wrth gwrs a gasglodd Ruth Lewis ond alawon ffidil yn ogystal. Mi gofnododd hi ddyn o’r enw Wil Ffidler yn chwarae ‘Cadi Ha’, er enghraifft.

Ar ôl dweud hynny i gyd, awn yn ôl at ‘Gwn Dafydd Ifan’. Gan ŵr o’r enw Ifan Edwards, Trefnant, y canwyd y gân, ond yn wreiddiol o Nantglyn. Yn ôl nodyn yng nghasgliad J. Lloyd Williams, canwyd ‘Gwn Dafydd Ifan’ gan lowyr o Nantglyn wrth iddyn nhw fynd i’r ardaloedd mwy diwydiannol i nôl glo ac mae cyfeiriadau lu ynddi am fannau pell iawn o Nantglyn. Yn yr un modd, mae’r gân ‘Lleuen Landeg’ yn sôn am grwydro i ‘Lunden’ a gwerthu cig, ac fel ‘Lliw Gwyn’, efallai mai cân tafod yn y foch oedd hon hefyd. Canwyd y gân gan W. T. Davies, Henllan, Clwyd, yn 1981 i Meredydd Evans. Fe’i dysgodd ef hi (W. T. Davies, nid Merêd!) yn 1914 ar fferm o’r enw Berain. Dywed Meredydd Evans yn *Canu’r Cymry* (t. 70), ‘Tocio rwdin yr oedd ar y pryd ac o glywed ei gyd-dociwr o’r un oed ag ef ei hun, a chanddo’r enw rhagorol Tubal Cain Evans, y dysgodd yntau hi.’

Cân arall sy’n adlewyrchu neu’n cyfeirio at yr ardaloedd mwy diwydiannol ydi ‘Ysgafnhau ein Gwaith’, cân o ogledd-ddwyrain Cymru, yn sôn am griw yn canu er mwyn goddef y pwn beunyddiol. Mae’n cael ei chrybwyll eto gan Phyllis Kinney yn *Welsh Traditional Music* yn ei phennod ar J. Lloyd Williams a’r Gymdeithas Alawon Gwerin. Ni ellir olrhain union bentref neu ardal y gân hon, dim ond crybwyll ei bod yn dod o’r ardaloedd mwy diwydiannol, gan ei bod hi’n sôn am ‘siswrn finiog fawr yn curo ar y lapston laith’. Mae’r gân ‘Pwy Sydd Isio Papur Newydd’ a recordiwyd gan Mr Joseph Davies, ffermwr a aned yn 1880 ac oedd yn byw ar fferm Nantymreddyn, Llansannan, yn 1964 (mae’r gân yn Archif Sain Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan) yn gofnod o’r diwydiant newyddion ac argraffu yn y cyfnod, yn sôn am weisg y papurau newydd a fodolai yn ystod cyfnod canu’r gân.

I Ysgafnhau ein Gwaith



Faint sydd wedi'u cofnodi o ganeuon Sir Ddinbych a'r ardal? Mae na ddigonedd, ond nid gormodedd. Does na ddim un yn *Caneuon Llafar Gwlad 1*, a dim ond dyrnaid sydd yn *Caneuon Llafar Gwlad 2*. Ond yr hyn sydd yn *Caneuon Llafar Gwlad 2* yw llawer iawn o eiriau caneuon crefyddol, a chaneuon Plygain gellir dweud yn bendant yw rhai ohonyn nhw. Bu cyfeiriad droeon at bentref Nantglyn eisoes. Mae amryfal enghreifftiau eto fyth. Yn Eisteddfod y Trallwng 1824 cynigiwyd gwobr am 'Y casgliad gorau o Hen Ganeuon Cymreig' (beirniad Ifor Ceri). Daeth dau gasgliad sylweddol i law, un gan 'Philomusus' sef John Gwynne, Darowen, a'r llall gan 'Aneurin', sef Aneurin Owen Nantglyn. Aneurin fu'n fuddugol. Wrth bori am gysylltiadau pellach â'r ardal, mae geiriau Ffoulke Owen Nantglyn a'i gerddlyfr yn gysylltiad pellach, a geiriau John Thomas Penfforddwen Nantglyn, 'Y Briffordd Rydd' ar fesur alaw 'Y Ceiliog Gwyn' yn enghraifft led-gyfarwydd. Yr un ddaeth i'r amlwg fwyaf oedd Robert Davies, a adnabyddid fel 'Bardd Nantglyn'. Hwn oedd y bardd a ysgrifennodd beth wmbreth o garolau a cherddi. yn eu plith y garol 'Wel Dyma Foreuddydd o Newydd i Ni' a'r garol 'Croeso! Forau Gwelwyd Golau', y ddwy wedi'u dethol a'u golygu gan Roy Saer yn *Caneuon Llafar Gwlad 2*.


Ac yn ôl â ni felly at gyfeiriadau agoriadol y ddarlith a'r cyfeiriadau at yr ysgafn a'r difrifol ochr yn ochr. Cyfeiriwyd eisoes at yr anterliwt ysmala, digon anniwair ar brydie, a geirie carolau yn cyd-fyw'n gwbl gyfforddus, yn gynnrych yr un beirdd. Fe gofir Bardd Nantglyn, crydd a chlochydd wrth ei grefft, yn bennaf am ei gerddi ysmala, dychanol, ei *leithiadur*, a'r llinell enwog 'Beibl i bawb o bobl y byd' yn ogystal â'r geiriau mwy syber a chysegredig. Soniwyd am William Owen Pughe, y geiriadurwr yn gynharach hefyd. I gloi, un stori fechan. Awn o Eisteddfod Dinbych 2013 at un gynharach a gynhaliwyd yn 1818. Llwyddodd y ddau, Bardd Nantglyn ac W. O. Pugh, i dynnu nyth cacwn yn eu pen oherwydd awdl ddadleuol y bardd buddugol Edward Hughes a alwai ei hun yn 'Y Dryw' yn yr eisteddfod honno. Cafwyd cryn gynnwrf yn yr eisteddfod pan ddyfarnodd y ddau feirniad, Bardd Nantglyn a William Owen Pughe, fod y wobwr yn mynd i'r Dryw yn lle i Dewi Wyn o Eifion (oedd wedi ei glustnodi, mae'n debyg, fel bardd y gerdd arobryn). Oes unrhyw beth felly wedi newid yn ystod treigl y blynyddoedd? Mae'r dadlau, yr anghydweled a'r annisgwyl, y llon a'r lleddf, y caneuon syber a'r smala, wedi troedio'r un llwybrau ac wedi cydgerdded yn Sir Ddinbych fel ym mhob sir arall.

THE MUSIC OF IOLO

MORGANWG:

SOME FURTHER THOUGHTS

Ceri Owen-Jones



Ceri Owen-Jones

I was talking to my Dad over Skype a few months back when he said, 'I know a Welsh folk song.' He then sang me a lovely tune which I did my best to note down. As I have been collecting and playing Welsh folk songs and dance music for the past four years, I was quite excited to collect something closer to the family. About a month after that I went to visit Meredydd Evans and Phyllis Kinney and I shared my Dad's song with them. Mered gave me a knowing smile. 'Arad Goch,' he said, and told me he knew the song well – Idris Lewis had composed the melody in the 1930s, a setting of the poem 'Cân yr Arad Goch' by Ceiriog. Mered disappeared into his study for half a minute, and returned with the book.

My Dad had learned this song in Pontgarreg school as a folk song. It raises an interesting point about the nature of folk music: how it comes into being, how and why it travels. After all, folk music is composed at some point by someone. Its capture comes always when it is thought to be on the edge of disappearing, the breath of a song to a blotted scrap of paper, an unplayed tunebook, an unplayable record, but like blossom, like winter ...

And then I was chatting with a fellow artist. As I am working with the music of Iolo Morganwg, I asked his opinion. He said that he would not work with Iolo's material: it was not authentic; Iolo had made it all up. I was surprised. The nature of authenticity in music and arts is something I have contemplated often. Authenticity holds a particular meaning for me, as an artist, but first I want to examine what 'authentic' denotes when applied to Iolo, as a separate study, free from what one critic has called 'the arduous process, still incomplete, of ascertaining how far the creative imagination of Iolo Morganwg polluted the ancient sources of a nation's history and culture'.¹ After going through his manuscripts, I firmly believe that this representation of Iolo is grossly exaggerated and in no way should it still be culturally acceptable to invalidate his work, as scholarship, as art.

My first thought is that Iolo's notebooks record a mixture of copied material and his own material, and however that ratio is apportioned, they represent an historic collection of Welsh folk arts.

With regards to the music collected by Iolo, I consider that it has a deep connection to the stream of Welsh musical thought.² It seems likely that the music found here is not only 'authentically Welsh', but shows links to a much older tradition as compared to Edward Jones' handelian arrangements of the tunes of his period. Although his melodies and arrangements claim great age with footnote commentary such as 'the burden of an old Song of the Druids, sung by the Bards and Vades, to call the people to their religious assemblies in the Groves', and 'this is the tune sung by the Monks of Bangor [...] about the year 603', and '[Mwynen Gwynedd] alludes to the departure of King Cadwaladr ... about the year 665', Edward Jones seems to escape cultural tarnish and connotations of inauthenticity in popular discourse.³ The complaisant nature of Edward Jones' music has been pointed out by scholars Daniel Huws and Joan Rimmer, who calls Edward Jones' comments 'patently false'.⁴ However, in the last few months alone, during concerts and general chat, I have been told that 'Iolo was a nutter', 'Iolo did much damage to folk music and traditions' and 'Iolo stole all of the music in his books.' If this represents popular thought, I wonder why this should be; it needs serious contesting.

In the music Iolo collected, one can read the influence of the older music notation, such as the Welsh humanist and musician Robert Peilin (c.1575–c.1638). That the music in Iolo's collection is from aural tradition and of greater age is suggested by the fact that it uses the same modal tonalities as those written in the Robert ap Huw manuscript. There is still debate in some circles on the nature of the tuning intended in the Robert ap Huw manuscript. However, no matter which method one chooses – be it the Irish system (F as doh, namely B^b in the key signature), the transcriptions of Claire Polin / John Parry (C as doh), or the harp tunings of Gwilym Pue (the 'ordinaire tuning' of Bragod, using B^b as doh, namely B^b and E^b in the key signature) – the music is still modal in nature. Modal music is the very core of Llio Rhydderch's music, an internationally-admired musician and whose music I believe to be a convergence of tradition and innovation. I believe there has always been modal music in Wales and Robert ap Huw, Iolo, John Thomas, Bragod, Llio Rhydderch, they are all part of a continuum.

Difficulties of Transcription

My teacher, trombonist Bob Stroup, taught me that jazz music could not be notated using conventional Western notation. It had to be heard and it had to be felt. Some music editors and publishers try to get around this by putting the words 'swing' above the notation to convey the proper feel; others would write (i.e. triplet crotchet and quaver). The latter is generally wrong (or only right for a slow blues shuffle) and the former is only useful if one has a means of contextualising the meaning of the word 'swing'. This demonstrates the difficulties we have with transcription and the difficulties that we face as players of written folk music, and may inspire sympathy more than misgiving with regards to Iolo's notations.

Generally, once music is written down it has been simplified. If one clings pedantically to the dots as a performer, this may miss the true quality and original intent of the music. Imagine trying to transcribe Gaelic Psalm singing as Thorkild Knudsen did; then imagine trying to reinterpret Murdina MacDonald's melody from Knudsen's score.⁵ His transcriptions, although exceptional in their detail, are not intended to be aids for playing. I think most people would find them nearly impossible to learn from compared to the much more gratifying path of learning by ear. In this way, one might better understand the feel, ornamentation, 'natural' voice, timbre and style of execution which will make the music fully alive.

Iolo must have realized the difficulty of transcribing music but he did it anyway in order to preserve it. Similarly, in order to use this opportunity to encourage Iolo's music to be played again, I must pass his music on in print. I have tried to explain some of the processes I went through to give a modern template to Iolo's transcriptions (preserving rhythms and notes) and to restore words to melodies, and also my own feelings about the tunes. I have kept to Iolo's notation as closely as possible, though several of his transcriptions bear the mark of being done on the spot of hearing. In a few instances, he does not use rhythmic markings (e.g. 'Cân Crottyn y Gwartheg' (NLW 13146A, p. 421). He often writes in just the same manner as a working non-classical musician would do. He may have made mistakes. But what I would like to propose is that we examine what is actually notated without overlaying our modern musical and cultural prejudices – an imaginative leap, considering the reduction of popular Western music in the last 300 years to only two scales, major and minor.

Edition Notes

i) Modes

It cannot be assumed purely through comparison to printed music that early notators forgot to include a key signature, or meant there to be one. In the John Thomas manuscript tunebook (dated 1752 on the first page) we have an example of a notator who clearly understood key signatures but chose to write many of the tunes in a modal manner (and a portion of his tunes in his own form of notation).⁶ It is likely that he played those tunes in his own manner, different from versions already published. It is very possible he wrote and played the tunes in his own Welsh idiom, which at that time was modal.

I believe there are several reasons why Iolo meant his Doh to be C: his notation of a C major scale (NLW IAW (uncatalogued)); his obvious understanding of key signatures (Hengoed NLW IAW 145, f. 8^r); the prevalence of modal melodies found in Welsh manuscripts before the 1800s (see Ceri Owen-Jones, 'Manuscript Modifications', *Canu Gwerin*, 36 (2013)). On a letter dated 1820 from Owen Pughe to Mr J. Harris, Printer, now bound in the Iolo collection, Owen Pughe's crisp handwriting notates a song in very clear, modern and standard music notation in the key of F major.⁷ Below this music and verse, Iolo's distinctive hand has notated a hymn in G mixolydian. Iolo had friends and associates who clearly understood modern music notation and key signatures and he had many opportunities to study them. Yet he continued to write in his own method.

Further, on another page of hymns, Iolo notates about seven tunes in the mixolydian mode but writes the last tune on the page in alternating phrases of G major and G mixolydian.⁸ This offers further evidence that he knew how sharps and flats worked; that is, he was aware of *Musica Ficta*.

This all suggests that Iolo understood modes and that he was accurately notating an alternative sound world which lasted in his part of Wales longer than in other parts of Europe. This is the sound world of Johannes Ockegham (c.1410–1497), Josquin des Pres (c.1440–1521) and Robert ap Huw (c.1580–1665).

It is one of the hardest things to recover, a past auditory landscape – the sounds themselves and their impact on those who heard them. It represents individual identity in music, rather than the published, and ‘nationalized’ versions.

ii) Interpretations

Modal music has a long history in Europe and Wales and is foundational to Western music. In an address to the Welsh Folk Song Society in 1915, Sir Richard Terry stressed the importance of modes and the fallacy of altering them for modern harmonization.⁹ Although he suggested there was no need to learn the Greek names of the modes and called them by numbers, by now the Greek terms are the standard names used internationally.¹⁰ I have included the sol-fa names.

The combinations of music and words presented below at some points include my own additions from the sources indicated, an attempt to describe and revive the sound and spirit of the original intent, supported by Phyllis Kinney’s conclusion of Iolo’s collection that ‘[t]hese were tunes that were suitable for singing of *penillion* and any verses in a suitable metre could be used.’¹¹

Iolo’s visual notation is an extraordinary individual source record of the reception and preservation of world music. I hope to show how important it is to allow the individual music to be read without cultural and conventional disqualifications. I do not believe there is a need to standardize melody or lyrics. What I would like to attempt to show is that Iolo’s tunes can be put into modern notation, just as he wrote them down. Edits and verse additions are marked with square brackets, asterisks and small note-heads. My hope is that you, the reader and artist, give your own verses to these melodies. I hope you enjoy.

1. C Ionian (doh mode)

'Ton deuair' IAW 145, f. 12^v

manuscript version



new interpretation

[1.F'a - nwy! Fei - nir, Gwael a'm gwe - lir, Yn dwyn poen dir, A gwae - w'yn gy - wir.
3.Ferch mi'th ser-chais Gwir mi'th ge - rais, A'm - hoen i'm hais Beu - nydd boe-nais.

2.Gwen - ferch gein-fwyn Gwiw-ne gwan- wyn I fi bydd fwyn F'i - raidd for - wyn.
4.Gwran - do'm Gren- der, Oes-dawl ddwys - der, A saf liw ser Dyn yn dy - ner.]

This first version keeps strictly to Iolo's notation. The 5/8 and 7/8 time feels quite natural and is gratifying to sing. These measures feel as if they are divided into 2:3 and 2:3:2 respectively. It is equally possible to put the tune entirely in 6/8 with some adjustments to the rhythms in order to fit the accent of the poetry. Alternately, it is possible to put the last three bars into 3/4 with minor adjustments, which is what I have done in the second interpretation:

[5.Ty - ner ge - rais F'a - nwy! gei-nais, A'm cur i'm cais Yn nwyf no- fiais.
7.Iaith faith foe-thawl Wi - nwyf wi-nawl, Gair teg er tawl Aeth - rwyn uth-rawl.

6.Mi - nia mein-wen Hoyw-liw haul-wen, Iaith ber o'th benn Leis - war lwyis-wen.
8.Mynn fi'n bri - od, E - nth wiw- nod, Yn nawdd a nod, Rhwy-mau'r am- mod.]

The melody is titled 'Ton deuair' in reference to the poetic metre *Cywydd Deuair Fyrion* (4.4.), a measure also known as 'Cyhydedd Ferr' in Wiliam Middleton's *Bardhoniaeth, neu Brydydhiaeth* (Llundain, 1593) and in Iolo Morganwg's *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* (Abertawe, 1829).¹² The melody is in C Ionian (C major). Rhythmic changes in the second version are indicated by the use of small note-heads.¹³ The rhythms in this melody can be taken as suggestive and

can be adjusted to the accent of the poetry. As the accent of the words moves, so should the accent of the music. The poem I have set with the tune is from *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* [2nd edition], p. 48. This melody has been previously published in *Canu Gwerin*, 8 (1985), p. 20 by Meredydd Evans, and in 6/8 by Phyllis Kinney in *Welsh Traditional Music* set with the words 'Deffrowch ben teulu'.¹⁴

2. D Dorian (re mode)

[untitled] IAW 145, f. 4^v

manuscript version



new version

[1. Blin y ddyn tra - llo - dion by - dol, Blin yw -
 2. Mwyn yn wir yw go - lud by - dol Bod yn -

do - lur trwm cor - pho - rol, Bli - na blin o'r holl flin -
 iach a byw'n he - ddy - chol, Ond, i gyn - nal pob di -

de - ron Yw blin - de - rau tost y - ga - lon.
 go - nedd, Go - reu - mw y - niant gwir a - my - nedd.]

For this melody (as with nearly all of his transcriptions) Iolo marked the end of phrases with a bar line and included melisma markings. From his use of this method of transcribing the tune, it is clear that he intended an 8.8. measure.

An appropriate poem written by Iolo was found in NLW 13148A, p. 51. It is entitled simply 'Eraill' and is part of a series of verses called *Pennillion Serch Gwasgar Iolo Morganwg*. The melody has a large range that is reminiscent of the melodies collected by Maria Jane Williams.¹⁵

3. E Phrygian (mi mode)

'Rhegoes 7 a 7 Cyhydedd gyrch ddeublyg IAW 145, f. 10^r

manuscript version

new version

[Hoff gan__rai__rhoi clod i'r mill A__ dardd yn E - brill__di - rion,
Dei- grau. Mair__pan dde - lo Mai Yng__ ngwisg ei lif - rai__gwyr - ddon,

Hardd pri - e - llau'n y - myl gwýdd A__ lly - gaid dydd ar__
Ca - nol haf__bydd rhos__ar__ lwyn A__ go - lwg fwyn ar__

:S:
las - ton, Mo - li'r__rhain boed waith y bardd, Maent oll yn__hardd, hy -
fei - llon, Ail i'r__fun am har-ddwch llun, Ni__we - lir__un o

:S:
fryd - lon;__ Tra__bwyf in - nau'n ca - nu
gyl - chon,__ Nid__oes ei gla - nach dan y

:S:
serch L__ be - raidd ferch liw'r hi - non,
sêr, A - ngy - les bër fy ngha - lon.]

This is a challenging melody in Phrygian mode. The use of the tritone gives this piece a very poignant and striking quality. Elsa Davies has suggested to me that the beginning in particular has a similar feel and sound to that of Gaelic psalmody. Though the intervals in this may not be considered likely by some, I would like to mention the use and explanation of the tritone in John Dowland's 1609 English translation of *Micrologus* by Andreas Ornithoparcus (Leipzig, 1517), which asserts that it is acceptable for experienced musicians to use.¹⁶ Of course, the occurrence of the Phrygian mode in Welsh folk music collected in JWFSS between the period 1909–1948 is only at 0.5%, as calculated by Peter Crossley-Holland.¹⁷ But mainly this statistic suggests that the modal sound world had virtually disappeared by that point. J. Alwyn Jones, examining 'the death blows of folk-song' in the *JWFSS*, suggested a contributing factor was 'the spread of the tonic sol-fa in 1841'.¹⁸ Certainly the Phrygian mode occurs in the collections of Ifor Ceri (for instance, 'Cân y Cathreiw'r', *Melus-Seiniau Cymru*, NLW MS 1940A, p. 121) and John Thomas ('bryn timerddon', NLW AH 1/36, f. 68r) to name just two. Iolo marks the poetic form as Cyhydedd Gyrch which is a measure (7.7.) that uses the rhyming scheme A.aB.C.cB. and in the old poetic metre known as Awdl-gywydd.¹⁹ I have found several poems attributed to Thomas Llywelyn o Regoes in Iolo's books but have not yet found one in the appropriate measure. Until I do find the poem indicated, I have chosen a poem about spring for this haunting melody.²⁰ It is found in one of Iolo's books NLW 13127A, pp. 296–8, and has previously been published in *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, gol. P. J. Donovan (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980), pp. 87–8, attributed to Morgan Pywel and entitled 'Cân Serch'. I have kept the notation as the original minus one melisma marking which I have indicated with an asterisk. The 16th notes at the start of the second bar I have treated as grace notes. The tune has a large range similar to many of the melodies collected by Iolo and Maria Jane Williams.

4. F Lydian (fa mode)

‘South Wales Glamorgan [Hen Wr o’r Coed]’ IAW 145, 12^v

manuscript version



new version

1.Y - fwr dwr a___ fydd hi - roe - sog, la - chus, ei - ddil, ag oerbwy - llog Do-faidd
 2.Y - fwr llaeth a___ gaiff hir iech - yd, Oed-ran gwr,hedd-ych-lon fy- wyd, Nwyf ta-

holl ser - chia-dau'r ga - lon, Ag heb glod ym__mysg y dew - rion.
 we - laidd yn ei ga - lon, A gair mawr ym__mhlith y doe - thion.

This melody is found under another tune of the same measure, called ‘yr hen wr o’r coed Gwynedd’, suggesting that the above tune is a ‘South Wales Glamorgan’ version of ‘yr hen wr o’r coed’ (Ifor Ceri’s tunebooks similarly put related versions of tunes following each other). The measure is 8.8. and the poem comes from a series of advice poems, which are all written by Iolo. The title of the poem is ‘Cân y diodydd – ar hen ddjarhebion Cymreig’ and is found in NLW 13148A, p. 149. Again, the occurrence of the Lydian mode in the Welsh folk music examined by Peter Crossley-Holland in the *JWFSS* between the period 1909–1948 is a big old 0%.²¹ However, Phyllis Kinney quotes a letter from Lewis Morris to Owen Meyrick in 1738, in which he refers to ‘that soft sweet and soothing air of our musical compositions being mostly in ye Lydian measure’.²² Phyllis Kinney continues:

It may well be that some of the quatrain tunes are derived from the Lydian mode with a flattened 4th, and this plus the presence of the Phrygian mode may indicate some degree of antiquity.²³

It is unfortunate that Lewis Morris did not note any of those melodies down. However, this mode can be found in the John Thomas collection in tunes such as ‘Black Syr Harry’ (AH1/36, f. 54^r) and in collections as late as Llewelyn Alaw (1828–1879), for example in his version of ‘Mab Aeddfwyn’ (NLW Add. MS 331D, p. 7). There are several other tunes in these collections in Lydian and so it is not particularly unusual.

5. G Mixolydian (sol mode)

‘ar fesur triban’ NLW 13146A, p. 436

manuscript version

mi we-lais dau'n y-mae-lyd, mi we-lais gwym-po'r go-fyd. do ai da-ro ar ei drwyn a ffac-lu dwyn ei fy-wyd. ho

de - re de-re da mach-gen bach a-nwyl i ho

new version

Mi we-lais dau'n y-mae-lyd, Mi we-lais gwym-po'r go-fyd, Do ai da-ro ar ei drwyn

A ffac-lu dwyn ei fy-wyd. ho de - - re

de - re da mach-gen bach an-nwyl i ho [da mach-gen i

ho de-re de - - re ho hai ho]

This melody is similar to other ox-driving melodies in Iolo's collection. I have followed Phyllis Kinney's excellent example in *Welsh Traditional Music* for the editing of this tune. It is meant to be rubato and this way of presenting the tune makes it easier for the singer to see the phrases. Any other verses of triban can

This one is difficult but folk music often seems more complicated when represented on the page. Singing this tune out loud feels quite natural. For this reason, in the first part, I have kept Iolo's rhythmic notation exactly as he wrote it. As pointed out to me by Daniel Huws, triban verse tends to place the strong accent on the second beat of the poem. Because of this accent, the first note here must be written as a pick-up. Iolo has marked phrases rather than metrical bar lines which is very useful when setting poetry to the music. The first bar I have written with a 3:2:3 accent followed by a bar with an accent of 2:2:2:2 which is why I used an 8/8 time signature. It would be possible and simple enough to put the music into 4/4 if one felt the need. I took my best guess at the ending of the first part as the page is torn at that point. I allowed for a symphony which was often part of triban tunes, though words could be set instead. Both verses were written by Iolo. The first verse is called 'Gwasgaredd Iolo Morganwg' found in NLW 21375A, f. 6^r, and the second is found in NLW 13146A, p. 380. Any triban verse will fit, including the one written above the melody:

merch iefanc deg ei dwyfron
yw'r un agar fy nghalon
Does bwyll na synwyr yn fy mhen
Ond sôn am wen lliw'r hinon.

From the tune in A Aeolian, the jig that occurs between verses falls down to G Mixolydian. The original was written in 16th notes and can still be notated that way if the measures are put into 3/4. As it is I have transliterated the rhythms to fit 6/8 without changing the original intent of the rhythms. I did this only because it was easier to read. The shift back and forth between the two sections feels quite natural. I have put a low-fi recording of this on my website so that you will be able to hear what I mean (www.gwalior.moonfruit.com).

When it comes to the odd time signatures, one can hear them in the recordings of Bertie Stephens (WRE 1124) and Ben Phillips (FTX-052). They both sing in oddly measured phrases. These recordings were made in the 1950s and 60s. How much more often would there have been odd time signatures in Welsh folk music before that time? We can conjecture that it may have once been the norm.

Daniel Huws has suggested to me that, as triban verses were generally sung communally, an even time signature would be suitable. The verse is from NLW 13146A, p. 380.



[3.Pan dde- lo'r...lwm dym-ho- rau, A'r gae-af oer ei ddy-ddiau gae-af oer ei ddy-ddiau Bydd llawn ei gell yn llwyr ddi wall Cais fod mor gáll ag yn - tau. Cais fod mor gáll ag yn - tau. etc...

In *The Nation's Music: Wales*, Robert J. Buckley writes: ‘Strange that while the Welsh language is far more foreign to English folks than German or Swedish or Dutch or Danish, Welsh music, as a whole, is much nearer the modern musical idiom of the English than English melodies of two or three centuries ago.’²⁴ What he perhaps realized only too well was how printed folk music in Wales had been systematically simplified and changed for print in order to fit the then latest fashions in London-centred classical music. The modal complexities and beauty of folk music preserved in Welsh manuscript collections, more complex and lasting than those London fashions, should be a great source of pride.

In the entire history of Wales, Iolo is easily her most creative individual. There are over 270 pieces of music of various genres and styles amongst Iolo’s collection of papers and notebooks. I have been transcribing them all for a collected edition (*Apologia Iolo Morganwg*) of his extraordinary contribution to Welsh musical culture.

Art

I met a scholar working on an article about Iolo. He told me that in Iolo’s time people called him a truth-teller. ‘Isn’t that ironic?’ said the scholar. But for me, it was not ironic at all. Art is the telling of Truth through the telling of lies. No one loves Vincent Van Gogh’s art for his realistic and factual portrayal of the world. They love him for the worlds he creates which they can experience through his emotional and heartfelt interpretation of those worlds. Artists, through their mythologies, touch deep Truth. This is the authentic artistic

tradition. Authenticity is that expression that comes from the heart. It is expression that tells Truth about the experience and condition of human Being. Any other expression or questions of authenticity seem meaningless to me.

Even though I consider Iolo's music to have come from an authentic tradition collected from people in Wales, it is not for this reason that I consider him to be authentic. He is authentic because his collection is heartfelt. His tunes have the power to move: like a waking dream, ancient long-forgotten memories, half remembered in the twilight; the grief and joy of remembering old friends; the sweet sorrow of love and life and death. This music contains deep Truth. And players of music can engage with this Truth – which gives me no end of joy. '[H]ere is one for you that I picked out of the mouth of a ploughboy.'²⁵ As for me, I'm off to learn 'Cân yr Arad Goch'. Thanks, Dad.

Calon wrth Galon.

Y Gwir yn erbyn y Byd.

Ceri Owen-Jones²⁶ⁱ

NODIADAU

¹ Moira Dearnley, "Mad Ned" and the "Smatter-Dasher": Iolo Morganwg and Edward "Celtic" Davies', *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, ed. Geraint H. Jenkins (Cardiff: University of Wales Press, 2005; 2009), p. 425.

² Daniel Huws, 'Iolo Morganwg and Traditional Music' *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, ed. Geraint H. Jenkins (Cardiff: University of Wales Press, 2005; 2009), pp. 333–56 (p. 350); Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Cardiff: University of Wales Press in association with Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 2011), pp. 127–8. Both make a strong case that Iolo's music collection was genuine.

³ Edward Jones, *The Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (London, 1784), pp. 128, 162; Edward Jones, *The Bardic Museum* (London, 1802), p. 94.

⁴ Daniel Huws, *art. cit.*, 333–56, cf. 336–7; Joan Rimmer, 'Edward Jones's Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards, 1794: a re-assessment', *Galpin Society Journal*, 39 (1986), 77–96 (p. 81); republished in *Canu Gwerin*, 10 (1987), 26–42.

⁵ Thorkild Knudsen, 'Ornamental Hymn / Psalm Singing in Denmark, the Faroe Islands and the Hebrides', *The 5th Congress of Nordic Musicologists*: Århus, 1966, *Dansk Folkemindesamling Information* (1968) 2, 16–22.

⁶ NLW J. Lloyd Williams AH1/36; see *Alawon John Thomas: A fiddler's tune book from eighteenth-century Wales*, ed. Cass Meurig (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru /

The National Library of Wales, 2004) for comparison of the manuscript with published sources, and historical description of John Thomas as a working fiddler.

⁷ NLW 21390E, p. 9.

⁸ NLW 21411E, f. 65^v

⁹ Sir Richard Terry, 'Welsh National Music: An address given to the Welsh Folk Song Society', *Journal of the Welsh Folk Song Society*, 2 (1925), 203–6.

¹⁰ Ibid., 205.

¹¹ Phyllis Kinney, op. cit., p. 128.

¹² *Barddoniaeth neu Brydyddiaeth gan Wiliam Middleton yn ôl argraffiad 1593, gyda chasgliad o'i awdlau a'i gywyddau*, gol. G. J. Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930).

¹³ This follows the example of Cass Meurig in *Alawon John Thomas: A fiddler's tune book from eighteenth-century Wales* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales, 2004).

¹⁴ Phyllis Kinney, op. cit., p. 135.

¹⁵ Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg, A Facsimile of the 1844 Edition*, With Introduction and notes by Daniel Huws (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru / The Welsh Folk Song Society, 1988; reprinted 1994).

¹⁶ John Dowland, *Andreas Ornithoparcus His Micrologus*, (London, 1609), p. 20: 'There be some other *Intervals*, very rare, and forbidden to yong beginners. For as the learned licence of Orators & Poets, doth grant certaine things to those which are as it were passed the age of warfare, but doth deny the same to fresh-water souldiers; so it is amongst Musitians. The names of those are these. Tritonus [...]']

¹⁷ Peter Crossley-Holland, 'The Tonal Limits of Welsh Folk Song', *Journal of the Welsh Folk Song Society*, 5, 26–73.

¹⁸ J. Alwyn Jones, 'What happened to the Folk-Song?', *Journal of the Welsh Folk Song Society*, 5 (1971), pp. 95–8, p. 95: 'the spread of the tonic sol-fa system in 1841[, w]ilst it greatly facilitated the local choir members to read music, and this habit of reading music grew, so that art of improvisation and solo folk singing declined.'

¹⁹ *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* [2nd edition] (Caernarfon: H. Humphreys [c.1884]), pp. 53–4.

²⁰ 'April is the cruellest month, breeding / Lilacs out of the dead land, mixing / Memory and desire ...' T. S. Eliot, 'The Waste Land', with thanks to Ceri Rhys Matthews and Elsa Davies for their discussion with me on this.

²¹ Peter Crossley-Holland, art. cit., 46–73.

²² Phyllis Kinney, 'The Tunes of "Yr Hen Benillion"', *Canu Gwerin*, 2 (1979), pp. 30–45, p. 39.

²³ Ibid.

²⁴ *The Nation's Music: Wales*, 4, ed. Robert J. Buckley (London: Cassell, [c.1909]), p. 9.

²⁵ Iolo Morganwg, NLW 13221E, p. 92

²⁶ My thanks are to Daniel Huws for reading this essay with thoughtful suggestions, to Roy Saer for encouraging me to write something for *Canu Gwerin* and to Elsa Davies for helping me with this essay and for playing through the music with me.

Y TRÊN YM MALEDI'R BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG

E. Wyn James



E. Wyn James

Ar 21 Chwefror 1804 daeth cannoedd ynghyd i wyllo injan stêm yn hercian ar hyd y naw milltir o dramffordd a redai i lawr Cwm Taf o 'dre'r haearn', Merthyr Tudful, i gyfeiriad Caerdydd a'r môr. Arwydd o gyffro'r achlysur oedd bod tua 70 o bobl wedi neidio ar y pum tram a dynnwyd gan yr injan er mwyn rhannu'r profiad o deithio ar gyflymder o tua phum milltir yr awr i lawr y cwm, a thrwy hynny ychwanegu rhyw bum tunnell at y deg tunnell o haearn a oedd yn y tramiau. Dyma'r enghraifft gyntaf o injan stêm yn rhedeg ar gledrau. Fe'i dyfeisiwyd gan y peiriannydd o Gernyw, Richard Trevithick (1771–1833), un o weithwyr Gwaith Haearn Penydarren, i redeg ar dramffordd a adeiladwyd i gystadlu â Chamlas Morgannwg, a oedd yn eiddo i Richard Crawshay, perchennog Gwaith Haearn Cyfarthfa. Ni pharhawyd â'r arbrawf, a bu farw Trevithick yn ddyn tlawd yn 1833, ond nid cyn iddo weld injans stêm yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus ar reilffordd gyhoeddus rhwng Stockton a Darlington yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn 1825.¹

O gofio'r lle allweddol a fu i Gymru yn y Chwydro Diwydiannol, nid yw'n syndod ei gweld yn arloesi mewn amryw ffyrdd yn natblygiad y rheilffordd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, bu Cymru ar y blaen sawl tro yn ystod oes aur y trên, ac nid yn unig yn achos injan Trevithick. Yn 1807, er enghraifft, agorwyd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gludo teithwyr yn rheolaidd am dâl, sef Rheilffordd Ystumllwynarth (*Oystermouth*), a redai ar hyd yr arfordir rhwng Abertawe a'r Mwmbwls. Ceffylau a dynnai gerbydau'r rheilffordd honno am flynyddoedd; ond rhoddodd y ddeddf a awdurdododd agor Rheilffordd Ystumllwynarth ganiatâd i'r tynnu gael ei wneud gan 'men, horses, or otherwise' – y tro cyntaf i'r geiriau 'or otherwise' gael eu cynnwys mewn deddf seneddol yn ymwneud â rheilffyrdd a thramffyrdd. Agorodd y rheilffordd gul (*narrow-gauge*) gyntaf yn y byd, Rheilffordd Ffestiniog, yn 1836, i gludo llechi o Flaenau

Ffestiniog i'r môr ym Mhorthmadog – er mai ceffylau a ddefnyddid i dynnu'r cerbydau yn yr achos hwn hefyd ar y dechrau. Yn Abergwyngregyn, rhwng Bangor a Llanfairfechan, y lleolwyd y cafn dŵr cyntaf er galluogi trên i ail-lenwi â dŵr heb aros, a hynny at ddefnydd yr 'Irish Mail' ar ei daith i Gaergybi. (Yr 'Irish Mail', gyda llaw, oedd y trên cyntaf yn y byd i ddwyn enw swyddogol.) Yn ardal Merthyr Tudful, wedyn, y dyfeisiwyd chwisl ar gyfer injan stêm – ym Mhentre-bach yn 1826 yn ôl un ffynhonnell, ac yn Nowlais yn 1833 yn ôl ffynhonnell arall.²

Yn Chwarel y Penrhyn, yn sir Gaernarfon, y defnyddiwyd barrau haearn ar gyfer rheilffyrdd am y tro cyntaf, a hynny yn 1802. Yn gyffredinol, yn y cyfnod pan ddefnyddid ceffylau i dynnu cerbydau, gwneid y cledrau o goed derw neu o dderw a phlât metel; ond gyda dyfodiad yr injan stêm, yr oedd angen cledrau haearn. Ym Mhen-y-cae (Glynebwy) yn sir Fynwy y gwnaethpwyd y cledrau ar gyfer rheilffordd arloesol Stockton a Darlington yn 1825; yng Ngwaith Haearn Penydarren y gwnaed y cledrau ar gyfer Rheilffordd Lerpwl a Manceinion, a agorwyd yn 1830; ac o'r 1830au ymlaen, ffwrneisi haearn cymoedd diwydiannol de-ddwyrain Cymru oedd prif gynhyrchwyr cledrau haearn, gan gyflenwi miloedd ar filoedd o gledrau i gwsmeriaid, nid yn unig ym Mhrydain ond ar draws y byd. Er enghraifft, yr oedd marchnadoedd sylweddol iawn ar gyfer cledrau haearn Cymru yn yr Unol Daleithiau ac yn Rwsia. Yn wir, yn ei gyfrol *Hanes Cymru*, awgrymodd John Davies, a'i dafod yn ei foch, ei bod yn bur debyg fod Anna Karenina yn nofel Tolstoy wedi dod i'w diwedd ar reilen haearn a ddygai nod Gwaith Haearn Dowlais! Yn 1849, y flwyddyn y cwplaodd Charlotte Guest gyhoeddi ei chyfieithiad Saesneg dylanwadol o'r Mabinogion, fe ddywedir bod gan ei gŵr, Josiah John Guest, perchennog Gwaith Haearn Dowlais, fwy o bobl yn gweithio iddo na'r un cyflogwr arall ar wyneb daear, a hynny yn rhannol oherwydd yr ehangu mawr a fu ar ei weithfeydd haearn yn sgil y galw am gledrau.³

Byddai'r galw hwnnw yn gostwng erbyn diwedd yr 1860au. Un rheswm am hynny oedd fod y rhan fwyaf o brif reilffyrdd Prydain wedi eu hadeiladu erbyn hynny. Rheswm arall oedd fod marchnadoedd tramor yn dechrau gofyn am gledrau dur (nad oedd gweithfeydd haearn de Cymru yn gallu eu cynhyrchu ar y pryd). Arweiniodd hyn at ddiweithdra sylweddol a 'thwymyn ymfudo' mewn mannau fel Merthyr Tudful; a golygfa gyffredin mewn lleoedd fel Merthyr oedd gweld gorsafoedd trenau (yn eironig ddigon) yn llawn perthnasau yn ffarwelio

â gweithwyr haearn a oedd yn ymadael am yr Unol Daleithiau neu Frasil neu ryw fannau pellennig eraill. Ymhlith y rhai a adawodd Merthyr yn y cyfnod hwn, gyda llaw, oedd un John Hughes (1814–89), a aeth yn 1869 ar wahoddiad Llywodraeth Rwsia i ddwyrain Wcráin i ddatblygu gallu Rwsia i gynhyrchu glo a haearn ac adeiladu rheilffyrdd, gyda chymorth gweithwyr profiadol o dde Cymru. Ystyrir John Hughes yn arloeswr y chwyldro diwydiannol yn Ymerodraeth Rwsia. Enwyd y dref a dyfodd o gwmpas ei weithfeydd yn Wcráin yn ‘Yuzovka’ ar ei ôl – newidiwyd yr enw i Donetsk erbyn hyn – ac y mae rhai pobl o dras Cymreig ymhlith trigolion y lle hyd heddiw. (Un a aeth i Wcráin, i fod yn diwtor i wyrion John Hughes, oedd Annie Gwen Jones, gwraig yr Uwchgaptan Edgar Jones, prifathro nodedig Ysgol Ramadeg y Bechgyn yn y Barri; ac yn y genhedlaeth nesaf, ei mab hi, y newyddiadurwr Gareth Jones – a laddwyd gan wylliaid ym Mongolia yn 1935 – oedd yr un a dynnodd sylw’r byd at y newyn enbyd a greodd Stalin ac eraill yn Wcráin yn yr 1930au, newyn a laddodd filiynau o bobl.)⁴

Er gwaethaf y galw byd-eang am gledrau haearn o Gymru o’r 1830au ymlaen, eithaf araf oedd datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru ei hun. Yn Lloegr gelwir y degawd rhwng canol yr 1830au a chanol yr 1840au yn oes ‘twymyn y rheilffyrdd’ (*railway mania*); ond megis dechrau yr oedd y gwaith o agor rheilffyrdd yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Gwelwyd dechrau o ddifrif ar hynny yng Nghymru yng nghanol yr 1840au, yng nghymoedd diwydiannol y De ac ar y llwybrau o Lundain i Iwerddon ar hyd arfordiroedd de a gogledd Cymru; ond bu datblygiad y rheilffyrdd yn arafach o dipyn mewn rhannau eraill o’r wlad. Yr oedd hyn yn rhannol am fod llawer o Gymru, y tu allan i’r ardaloedd diwydiannol, yn denau o ran poblogaeth ac yn gymharol dlawd yn economaidd, heb sôn am natur fynyddig y dirwedd. Bu tipyn o bwysu gan rai i ddatblygu rhwydwaith rheilffyrdd yng nghanolbarth Cymru. Un o’r rhai amlycaf yn eu plith oedd y gweinidog Anghydfurfiol radicalaidd, ‘S. R.’ (Samuel Roberts, 1800–85), Llanbryn-mair. Gallai ddweud hyn, er enghraifft, ym mis Hydref 1854, wrth apelio am gael rheilffordd yn ei sir enedigol, sir Drefaldwyn:

How is it, old county of Montgomery [...] that thou hast been so long without a Railway? [...] Railways have now become *necessary* blessings. Time was when they were new and untried; but now they rank as good *old* blessings, as *long-tried* conveniences. They are thick on the ground along the whole of thine inland border.

Thy neighbours of the north and the south could not think of doing without them; and if thou hadst had them for the last ten years, all thine interests would have been now more powerful and flourishing:— they would have made thy nobility more noble, thy gentry more gentle, thy merchants more enterprising, thy tradesmen more successful, thy farmers more scientific, thy artificers more artful, and all thy working classes more industrious, more provident, and more happy. This long sad neglect of a convenience of such importance has caused thee losses beyond all calculation.⁵

Dechreuodd y rhwydwaith o reilffyrdd a fyddai'n cwmpasu Cymru gyfan ddatblygu'n raddol, a braidd ar hap, o'r 1850au ymlaen. Cyrhaeddodd y gweithgarwch hwn ryw fath o uchafbwynt yn yr 1860au, ac erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ychydig oedd y bobl yng Nghymru a oedd yn byw fwy na phum milltir oddi wrth orsaf drenau. Yn wir, erbyn diwedd y ganrif yr oedd gan y De diwydiannol rwydwaith rheilffyrdd a oedd yn ddwysach, yn ôl pob tebyg, nag unman arall yn y byd.⁶

Fel ym mhob man arall, byddai gan ddyfodiad a datblygiad y rheilffordd ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd sylweddol a phellgyrhaeddol yng Nghymru – nid yn annhebyg mewn sawl ystyr i'r ffordd y mae datblygiad y rhyngrwyd wedi cael effaith chwyldroadol ar ein bywydau ni. Effeithiodd yn ddwfn ar bob rhan o'r wlad ac ar bob agwedd ar ei bywyd. Yn ddemograffaid, gellir dadlau bod dyfodiad oes y trê'n yn elfen allweddol yng ngoruchafiaeth de Cymru ar y Gogledd o ran dwysedd y boblogaeth ac o ran twf diwydiannau trymion wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd yn ei blaen.⁷ Yn weledol, cafodd dyfodiad y rheilffyrdd effaith amlwg ar y dirwedd, gydag amlhau argloddiau (*embankments*) a hafnau (*cuttings*), pontydd a thwneli; a byddai Cymru, a'i mynyddoedd uchel, ei chymoedd dwfn a chul a'i milltiroedd lawer o arfordir, yn llwyfan i gampweithiau peirianyddol rhyfeddol, megis Traphont Crymlyn (a oedd yn 200 troedfedd o uchder, yr uchaf o'i bath ym Mhrydain), Bwlch Talerddig (y toriad hwn o 120 troedfedd yn y graig oedd yr hafn ddyfnaf yn y byd ar y pryd) a'r pontydd tiwb ar draws afonydd Conwy a Menai – gwaith peiranwyr nodedig megis Isambard Kingdom Brunel, Robert Stephenson a Henry Robertson.⁸

Canodd y baledwyr glodydd y fath gampau peirianyddol yn frwdfrydig. Enghraifft dda o hyn yw Ywain Meirion (Owen Griffith, 1803–68) yn ei faled (ar yr alaw ‘Tramp o Dre’) am y gwaith o adeiladu Rheilffordd y Drenewydd a Machynlleth yn gynnar yn yr 1860au, sy’n canmol y peirianwyr, David Davies, Llandinam, a Thomas Savin a’u ‘gweithwyr gwiwdeg’:

Trigolion Sir Drefaldwyn, naws hyfwyn, cydnesewch,
Os rhoddwch glust-wrandawriad rhyw ddifyr ganiad gewch,
Sef clod i’r briffordd haearn yn hoywlan ar ei hyd,
Machynlleth a’r Drenewydd a gewch ar goedd i gyd.
Gwir glod i Davies llon, a Savin braf gerbron,
A phawb o’u gweithwyr gwiwdeg yr hynod adeg hon ...

Hwy groesant Afon Gledan tros bontydd gwiwlan waith
Nes cyrraedd golwg Carno a difyr yno’r daith,
Dros gorsydd a mawnogydd rhai sydd cyd-rhwng y Sarn,
Trwy ganol craig Talerddig nodedig ydyw’r darn.
Gwir glod ...

Rhai’n dal a rhai yn taro, rhai’n ceibio a rhiglo â rhaw,
Rhai’n llenwi, gyrru a gwthio, dyludo â dwy law,
Mae’r gofaiad, seiri a llifwyr a labrwyr yno lu
Yn ffyddlon weithio i’w meistriaid mewn galwad oll yn gu.
Gwir glod ...

Gwnaed *railway* uwchben yr afon a’i llif echryslon llaith,
At fwa maen dymunol rhagorol ydyw’r gwaith,
Fel twnel hir o dani yr afon hon a red,
Bydd trê’n o dri chan tunnell yn croesi drosti, cred.
Gwir glod ...⁹

Cawn faled ar y dôn ‘Llwyn Onn’, a luniwyd yn 1850 gan Robert Roberts (‘Maccwy Môn’; 1784?–1871) – brodor o Bentraeth ym Môn ac un o ‘gywion’ Dafydd Ddu Eryri – sy’n canu clodydd Pont Britannia, y bont diwb o waith Robert Stephenson ar draws afon Menai a agorwyd ym mis Mawrth 1850 ac a oedd (meddai’r bardd) ‘mor harddwych a *pharlw’*. Yn y gân, y mae Gwyddel yn adrodd iddo fynd trwy’r tiwb ar ei ffordd o sir Fôn i Lundain, a bod hynny

fel mynd 'drwy *grombil* rhyw forfil'. Y mae'r un faled yn tynnu sylw at y cyffro yr oedd trenau yn ei achosi wrth iddynt fynd heibio ar eu taith, yn enwedig ymhlith anifeiliaid a phobl oedrannus. Yn y gân, y mae'r cŵn yn cyfarth a'r gwartheg yn cyffroi, ac y mae hen ddyn, a ddychrynwyd gan chwibanu a phwffian y trên, yn dychwelyd adref ar hyd ffordd arall, mor bell o swm y trên â phosibl:

Y peiriant berwedig a'i sefnig fawr swn,
Wrth basio pob buarth, yn cyfarth bydd cwn;
Hen ŵr o Benmachno, 'nymdeithio wrth ffon,
Feddylodd wrth Aber mai gwiber oedd hon;
O'i chlywed hi'n piffio a ffrïo mor ffraeth,
Dywedyd ei *bader* mewn pryder a wnaeth,
A thros Fwlch-y-ddaufaen, ae'n ol meddan' nhw,
Rhag ofn y piff arall, pwp arall, pwp pw.


Wrth deithio drwy'r dolydd a'r maesydd mor chwyrn,
Y gwartheg a redant, a chodant eu cyrn;
Y meirch fydd yn prancio, am luchio'r bôl-lol;
A'r gwyddau tan gleber, yn cleger eu clol ...¹⁰

Mewn darluniau o'r fath cawn ymgorfforiad o wrthdaro dau ddiwylliant, o'r tyndra rhwng y byd modern a'r bywyd gwledig traddodiadol. Ac fel yn achos cerdd 'Maccwy Môn', a'i 'piffio a ffrïo mor ffraeth', fe gawn sawl enghraifft yn y baledi o geisio atgynhyrchu swm y trenau yn onomatopeiaidd. Meddylier, er enghraifft, am gân Ceiriog i'r trên, a fu'n hynod boblogaidd ar y taflenni baledi:

Chwibanodd y peiriant yn gryf ac yn groch,
Fel gwichiad soniarus pum ugain o foch;
'All right,' meddai rhywun, a chanwyd y gloch.
Hergwd a phwff,
Ac mewn hanner chwiff,
Ysgytiad a chwiff,
Piff, piff, piff-a-piff-piff,
Hwlti heltar skeltar,
A fwrdd â ni ...¹¹

Fel y nodwyd eisoes, dechreuwyd o ddifrif ar y gwaith o godi rheilffyrdd yng Nghymru yn yr 1840au. Er eu bod yn eiddo i gwmnïau preifat, yr oedd yn rhaid wrth ddeddf seneddol i ganiatáu adeiladu rheilffordd gyhoeddus, a chyflwynwyd llawer mesur o'r fath yn y Senedd yn San Steffan o'r 1840au ymlaen, er na fyddai pob un o'r rheilffyrdd hynny, o bell ffordd, yn cael ei chwblhau, na hyd yn oed ei dechrau.¹² Y mae nifer o daflenni baledi wedi goroesi, o tua chanol yr 1840au yn enwedig, lle y mae'r baledwyr yn sôn am y bwriad o agor rheilffyrdd, gan sôn weithiau am un lein benodol, ond yn aml yn rhoi amlinelliad mwy cyffredinol o'r datblygiadau arfaethedig a'u heffeithiau.¹³ O'r rhain gallwn weld bod y baledwyr oll yn croesawu'n frwdfrydig ddyfodiad y rheilffyrdd, ac yn eu gweld yn gyfrwng trawsnewid cymdeithas ac economi Cymru er gwell. Y mae teitlau nifer o'r baledi yn nodi'n benodol mai eu diben yw amlinellu'r buddiannau y bydd y datblygiadau hyn yn eu dwyn yn eu sgil – dyna, er enghraifft, faled Ywain Meirion, 'Cân Newydd am Ddisgwyliad Daionus i'r Cymry trwy Wneuthuriad y Ffyrrdd Haearn trwy y Wlad'¹⁴ – tra bod gan eraill deitlau megis 'Mawlgan i Ffordd Haearn Glannau Cymru (Welsh Coast Railway) sef o Aberystwyth i Gaernarfon, Pwllheli a Phortin-llaen'. Cerdd oedd y fawlgan honno a luniwyd gan Ywain Meirion, yn gynnar yn 1862 yn ôl pob tebyg, i ddathlu dechrau'r gwaith ar yr 'Aberystwyth & West Coast Railway', a adeiladwyd mewn camau rhwng Aberystwyth a Phwllheli yn ystod yr 1860au, ond na chyrhaeddodd erioed ei chyrchfan arfaethedig, Portin-llaen, am i'r cynlluniau i droi'r fan honno yn brif borthladd i gysylltu gogledd Cymru a Dulyn fynd i'r gwellt.¹⁵ Yn ogystal â chanmol peirianwyr a gweithwyr, cafwyd mawl hefyd i fonheddwyr lleol, megis yn achos y faled honno a luniwyd tua diwedd yr 1850au gan Maria Williams o Flaenpantycreuddyn, Llandysul – un sy'n ei disgrifio ei hun fel 'hen wraig fach, anllythrennog' – sy'n canu clodydd y sgweiar lleol, J. Lloyd Davies (1801–60), Blaendyffryn, am ei ymdrechion i gael rheilffordd i'r ardal (er bod tua thraean o'r gerdd wedi ei neilltuo i ddisgrifio gwraig newydd y sgweiar, a briododd yn 1857).¹⁶

Y mae dosbarth arall o faledi sy'n disgrifio teithio ar leiniau penodol (rhai newydd yn amlach na pheidio), megis un y baledwr dall, Dafydd Jones (1803–68) o Lanybydder, 'Can Newydd, sef Taith gyda'r Railway o Benfro i Strata Florida Yng nghyd ag ychydig sylwadau ar y Gwaith oddi yno i Aberystwyth', ar y 'Dôn Fechan'. *Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru* Llinell agoriadol y faled hon yw 'Pwff, pwff mae'r Train yn starto', ac y mae'n adrodd am daith ar y trên trwy dde-orllewin Cymru o sir Benfro hyd at orsaf 'Strata Florida' yng



Ngheredigion, gan nodi fod yn rhaid dal y *coach* wedyn i Aberystwyth, am eu bod yn dal wrthi yn adeiladu'r lein o orsaf 'Strata Florida' ymlaen. Uwchben teitl y faled ceir, fel rhyw fath o logo, y pennawd 'Manchester & Milford Railway', sef enw'r lein o Bencader i orsaf 'Strata Florida' (ac yna i Aberystwyth) – ond lein na chyrhaeddodd na Manceinion na Milffwrdd yn y diwedd!¹⁷ Y mae un faled am daith ar drên hyd yn oed yn cynnwys ar ymyl y ddalen yn y fersiwn printiedig y cyfarwyddyd 'Newid tren' yn y manau perthnasol yn y faled – bron fel petai disgwyl i bobl fynd â'r faled brintiedig gyda nhw ar eu taith.¹⁸ Y mae'r baledi hyn am deithio ar reilffyrdd, fel y rhai am adeiladu rheilffyrdd, yn enwi llawer iawn o leoedd – yn wir, nid yw rhai o'r penillion lawer mwy na rhestr o drefi a phentrefi – yn y gobaith, y mae'n debyg, y byddai hynny'n tynnu sylw pobl a chanddynt gysylltiad â'r manau hynny, a'u denu i wrando ar y faled a'i phrynu. Trwy ddarparu gwybodaeth am liniau arfaethedig neu am reilffyrdd a oedd eisoes yn bod, gellid tybio i'r baledi gyflawni swyddogaeth hyrwyddo bwysig i fuddsoddwyr a defnyddwyr fel ei gilydd. Y mae'n ddigon posibl, yn wir, fod rhai o'r baledi hyn wedi eu comisiynu gan entrepreneuriaid a pherchnogion rheilffyrdd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i ryw fenter newydd; a hwyrach ei bod yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn fod Dafydd Jones, Llanybydder, ym mhennill olaf y faled a chanddi'r pennawd 'Manchester & Milford Railway' yn rhyw fath o logo, yn gofyn i gontractwyr y lein – David Davies, Llandinam, a Frederick Beeston – gofio'r baledwyr:

Boed i Davies ac i Beeston,
Gofio am yr hen gantorion;
Trwy roi *Pass* i fyn'd i'r ffeiriau [*sic*]
I gael gwerthu Can y Railway.

Ac mewn baled arall, ar y dôn 'Railway Speed', y mae Dafydd Jones yn annog pobl i fuddsoddi yn y rheilffordd arfaethedig 'o Gaerfyrddin i Lanidloes, yn nghyd a'i gwahanol ganghenau trwy y Wlad': 'Rhowch eich harian yn ddidrwbwl, / Fe ddaw interest arni'n ddwbl.'¹⁹

Beth oedd y budd a ddeuai gyda dyfodiad y trên yn ôl y baledwyr? Y prif beth oedd llewyrch economaidd, yn enwedig i ardaloedd mwy anghysbell gorllewin a gogledd Cymru. Y mae'r gair 'llawnder' yn digwydd yn drawiadol o aml yn y baledi hyn.²⁰ Yr oedd yr 'Pedwardegau Newynog' yn gyfnod o ddirwasgiad economaidd difrifol ac o gynnwrf cymdeithasol yng Nghymru, ac ychydig oedd nifer y gweithwyr amaethyddol a allai fforddio rhoi cig ar y ford. Ond gyda dyfodiad y rheilffyrdd, meddai'r baledwyr, deuai hwb mawr i'r economi – proffwydoliaeth a ddaeth yn wir, gan fod yr 1850au a'r 1860au yn gyfnod llawer mwy llewyrchus yn economaidd yng Nghymru, diolch i raddau helaeth i ddatblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd, a ganiatâi i nwyddau a phobl symud yn rhwyddach o'r ardaloedd gwledig tlotach.²¹ Rhagwelai'r baledwyr y byddai prisiau'n cynyddu'n sylweddol wrth i'r marchnadoedd am nwyddau ehangu. Gwelent gig a menyn a bara gwyn yn disodli llymru a thatws a bara haidd ar fordydd y bobl. Byddai danteithion megis siwgr a the, a diodydd meddwol o ansawdd gwell – jin a rŷm a brandi – ar gael yn amlach. Gallai glo a chalch gael eu cludo'n rhwydd. Byddai ffeiriau a marchnadoedd yn ffynnu. Byddai'r diwydiant ymwelwyr yn ffynnu hefyd, wrth i fwy o dwristiaid allu teithio i'r ffynhonnau ac i lan y môr, ac wrth i'r Cymry eu hunain ddod yn llawer mwy symudol.²²

Diddorol yw gweld pa mor aml y mae triapiau i Lundain yn cael eu crybwyll yn y baledi hyn.²³ Yr oedd agor Pont Britannia yn 1850 yn golygu y gallai'r 'Irish Mail' yn awr fynd yr holl ffordd o borthladd Caerdybi i Euston yn Llundain, ac yng nghân 'Maccwy Môn', a luniwyd yn lled fuan ar ôl agor y bont, fe nodir y byddai modd i rywun adael Caerdybi brynhawn dydd Iau, treulio dydd Gwener yn Llundain yn siopa ac yn ymweld ag Eglwys Gadeiriol Sant Pawl, a bod yn ôl

erbyn nos Sadwrn yn bwyta eu swper ‘mewn mwynder yn Môn’. Yn 1845 cafwyd deddf seneddol yn awdurdodi adeiladu rheilffordd ar draws de Cymru hyd at borthladd Abergwaun. Disgrifiwyd y fenter gan y cyfarwyddwyr fel ‘a great national undertaking to connect the South of Ireland as well as South Wales with the Metropolis [*h.y. Llundain*]’.²⁴ Tua 1846, lluniodd y baledwr dall, Levi Gibbon (1807?–1870) – un o hynafiaid Roy Saer²⁵ – gerdd a oedd yn croesawu dechrau adeiladu’r rheilffordd honno ac yn amlinellu’r manteision a ddeuai i’r bobl a oedd yn byw yn ei hymyl. Tua diwedd y faled, fe ddywed Levi y bydd pobl Abergwaun yn dweud, ‘To London we will go’ (a hynny’n arwyddocaol yn Saesneg mewn baled sydd fel arall yn Gymraeg), ac na fydd anhawster bellach gan ferched Mathri gerllaw i ddod o hyd i wŷr, gan y bydd rhychwant ehangach o gariadon o fewn cyrraedd hwylus iddynt:

Bydd Abergwaun ar hyn o dro,
Yn dweud, To London we will go;
Wel dyma spri i Abergwaun,
Gael gweled Lloegr gyda’r train;
A merched Mathri yn ddilai
Gaiff brofi cusan Dic a Dai,
Ac ni bydd un o’r rhai’n cyn hir
Yn ochain mwych am gael gwyr.²⁶

Ac felly y bydd hi hefyd yn ardal Merthyr Tudful, meddai Levi Gibbon, pan ddaw’r trê:

Bydd bechgyn Rymni yn y man,
A merched Dowlais every one,
Yn ffoi i London fawr a man
Mewn cerbyd gyda’r engine dan.

O Droedyrhiw i’r Pentrebach,
Mi wn bydd chwerthin wich di wach;
A bechgyn Merthyr gyda hwy
Aiff mofyn wedgan os nid dwy;
Bydd pawb o dylwyth Aberdar
Ag aur ac arian yn mhob dra’r;

A Hirwaun hefyd gyda hyn,
Bydd pawb trwy'r lle a'u boliau'n dyn.²⁷

Ac fel hyn y bydd hi yn y Gogledd yn ôl Ywain Meirion:

Brydnawn 'r ôl gwneud y railroad honno,
Gall Guto Siôn y Go'
O Lanbedr fynd i garu i Lerpwl
Heb drwbwl ambell dro,
Trw'r [*sic*] nos gusanu ei gariad,
Ŵr difrad 'rôl hir daith,
A'i gario adre'r bore'n barod,
Heb golli ei ddiwrnod gwaith;
Gall Harri o Borthdinllaen,
A Marged Bwlch-y-maen,
Mewn diwrnod fynd i Lundain fwynber,
Trwy bleser yn eu blaen.
Gall Jack o Gaerwys gael ei gario
A Rhys Llandrillo'n Rhos,
I olwg gweithiau haearn Merthyr,
Yn eglur cyn y nos.
Aiff Gwenno bach i Gaer
I garu Sianco'r saer,
A Siân Cilrhedyn i Lundain wedyn
Tan chwerthin at ei chwaer,
Bydd Ann yn sisial gan ddweud yn Saesneg,
'Now make a gown for me,
I'll go to Gloucester with Jack the Weaver
This summer you shall see.'²⁸

Er bod llawer o'r cerddi sy'n croesawu'r trên ac yn sôn am y budd a ddaw yn ei sgil yn perthyn i'r 1840au a'r 1850au (h.y. i gyfnod cychwynnol y datblygu mawr yn hanes y rheilffordd yng Nghymru), y mae'r themâu hyn i'w gweld mewn cerddi poblogaidd hyd at ddiwedd y ganrif, pryd bynnag yn wir y bydd sôn am lein newydd,²⁹ er bod cerddi o'r fath yn tueddu i ymddangos yn gynyddol mewn papurau newydd yn hytrach nag ar daflenni baledi, wrth i gynhyrchu taflenni

baledi leihau a chyhoeddi papurau newydd ffynnu fwyfwy yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, y mae Robin Gwyndaf wedi casglu nifer o gerddi gan feirdd gwlad Uwchaled a Bro Hiraethog tua diwedd Oes Victoria sy'n mynegi'r gobaith y bydd y trên yn dod i'w hardal, megis cerdd y crydd o ardal Cerrigydrudion, Robert Williams ('Myfyr Alwen'; 1859–1922), ar 'Y Fantais o Gael y Rheilffordd i Cerrig-y-Druidion [*sic*]', a gyhoeddwyd ym mhapur newydd *Yr Wythnos* ar 2 Chwefror 1895. Dyma ychydig benillion ohoni:

Pe y caem gerbydres unwaith,
Ai pob mab a merch yn lanwaith
 A chysurus yn y tren;
Yn lle talu haner soffren,
Am rhyw swllt caem fyn'd i Gorwen,
 Oni fyddai hyn yn glên! ...

Cai y ffermwr heb ei ferlyn
Fyn'd i werthu'r caws a'r 'menyn
 I farchnadoedd gwledydd pell;
Fe gaiff yno'r uwchal brisiau –
'R hyn a'i galluogai yntau
 Roi i'r gweithiwr gyflog gwell. ...

Fe gawn weled olwyn masnach
Cyn bo hir yn troi'n gyflymach,
 Pan ddaw'r 'ceffyl tân' i'n bro;
Adeiladir tai gorwychion,
Er cael lle i'r boneddigion
 Ddeuant yma ar eu tro.

Daw y boneddigion mwyaf
O bob parth o'r byd, mi gredaf,
 I gael golwg ar ein gwlad;
A bydd mêl eu haur melynion,
Yn ein gwneuthur ninau'n foddlon
 Gweini arnynt mewn boddhâd. ...

Ond er i waith ddechrau ar y lein honno, dyma enghraifft arall o reilffordd na lwyddodd i gyrraedd ei chyrchfan arfaethedig.³⁰

Ystyrid y trên, felly, gan y baledwyr yn ymgorfforiad o fodernedd ac o gynydd; ac yn sicr, fe ddaeth y trên â llewyrch economaidd (am gyfnod o leiaf), a llawer o welliannau eraill i ansawdd bywyd – gymaint felly nes y gwelwn un baledwr yn cwyno fod pobl yn dechrau mynd yn ddiog:

Mae Jane am gael y trên i'r caeau,
I nol y gwartheg yn y borau;
A Mary bach am gael ei chario
Yn y trên wrth fynd i odro.³¹

Y mae'n arwyddocaol, efallai, mai un o'r baledi mwyaf poblogaidd am y trên yng Nghymru Oes Victoria ac Edward oedd un y gweinidog Bedyddiedig, O. Waldo James (1845–1910), sy'n sôn am rywun yn colli'r trên trwy godi'n hwyr fore Llun, a'r holl golli cyfleoedd a'r gwawd a ddaeth i'w ran yn sgil hynny. Ceir nifer o gerddi eraill yn yr un cywair, megis yr un gan yr areithydd poblogaidd, Cranogwen (Sarah Jane Rees, 1839–1916), sy'n ei darlunio ei hun mewn cyflwr hollol rwystredig ar orsaf Moat Lane ger Caersws yn ystod taith ddarlithio ym mis Hydref 1866, a hithau wedi colli'r trên o dri munud ac yn gorfod aros bum awr am yr un nesaf – a thrwy hynny yn mynd i fod yn rhy hwyr i ddarlithio yn y Dyffryn, Ponterwyd, y noson honno.³² Y mae baled arall sy'n adrodd hanes nifer o bobl wahanol yn rhedeg i ddal y trên o'r Bala i Flaenau Ffestiniog, a chael ei fod wedi mynd a'u gadael ar ôl;³³ ac y mae gan Geiriog gân sy'n sôn am ddyn yn colli'r trên i'r Bala ddwywaith, gyda chanlyniadau anffodus – ond y trydydd tro, cyfarfu â merch ar yr orsaf a oedd fel yntau wedi colli'r trên, ac meddai: 'Os collais i'r trydydd trên, / Mi ffeindiais fy nghariad newydd.'³⁴

Ond nid newid er gwell oedd pob newid a ddaeth yn sgil dyfodiad y rheilffordd. Dadleuodd yr hanesydd diwylliant, Raymond Williams (a oedd ei hun yn fab i signalwr ar y rheilffordd yn ardal y Fenni) fod dwy wedd bob amser i foderniaeth – un gadarnhaol ac un negyddol – ac yn sicr yr oedd agweddau negyddol i ddyfodiad y rheilffordd i Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mai yn anaml y mae'r baledwyr yn eu crybwyll.³⁵ Ond stori arall yw honno.

NODIADAU

¹ Frank Llewellyn-Jones, 'Wales and the Origins of the Railway Revolution', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1983, 124–8; 'History of Transport', *Merthyr Historian* ([Merthyr Tudful]: Merthyr Tydfil Historical Society, 1976), 36–7, 44, 48–9, 54, 56–7; James Hodge, *Richard Trevithick*, arg. newydd (Princes Risborough: Shire Publications, 2003), 21–2, 44–5; Herbert Williams, *Railways in Wales* (Abertawe: Christopher Davies, 1981), 11–13.

² Llewellyn-Jones, 'Wales and the Origins of the Railway Revolution', 119–20, 127–30; R. Emrys Jones, *Rheilffyrdd Cymru: The Railways of Wales* ([Caernarfon]: Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru, 1979), 8, 12, 17, 22. Ar y gân, 'Trên Bach Port', am 'y Lein Bach' o Flaenau Ffestiniog i Borthmadog, gw. Meredydd Evans, 'Ambell i Gân', *Canu Gwerin*, 31 (2008), 83–4.

³ Jones, *Rheilffyrdd Cymru*, 7; David Williams, *A History of Modern Wales*, adarg. (Llundain: John Murray, 1969), 215; John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain: Allen Lane, 1990), 338–9, 369; *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen: Merthyr Teachers Centre Group / D. Brown & Sons, 1981), 284.

⁴ Williams, *A History of Modern Wales*, 219–22; Davies, *Hanes Cymru*, 389–90, 397, 453–4; Bill Jones, 'Raising the Wind': *Emigrating from Wales to the USA in the Late Nineteenth and Early Twentieth Centuries* (Caerdydd: Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, 2004) – <http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/resources/RaisingTheWind.pdf>; E. G. Bowen, *John Hughes (Yuzovka) 1814–1889* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1978); Margaret Siriol Colley, *More Than a Grain of Truth: The Biography of Gareth Richard Vaughan Jones* (Newark: Nigel Linsan Colley, 2005); Alun Gibbard, *Gareth Jones: Y Dyn Oedd yn Gwybod Gormod* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2014); <http://www.garethjones.org/>.

⁵ Samuel Roberts, *Gweithiau Samuel Roberts* (Dolgellau: Evan Jones, 1856), 329–30.

⁶ Frazer Henderson, *Peirianwyr a Phenseiri Rheilffyrdd Cymru: The Railway Engineers and Architects of Wales* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1991), 4–11; Williams, *A History of Modern Wales*, 217–19; Davies, *Hanes Cymru*, 369–70, 393–5; Hywel Gethin Rhys, '“Yr Haiarnfarch”: Y Rheilffyrdd a'r Cymry yn Ystod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', *Cof Cenedl XX*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005), 101–31 – gw. hefyd ei draethawd PhD anghyhoeddedig, 'Dyfodiad y Rheilffordd i Ganolbarth Cymru, 1854–1870' (Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 2004); Jack Simmons, *The Railway in Town and Country 1830–1914* (Newton Abbot: David & Charles, 1986), 315–17; Jack Simmons, *The Victorian Railway* ([Llundain]: Thames & Hudson, 1991), 337; Gwyn Briwnant Jones a Denis Dunstone, *The Railways of Wales circa 1900* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), 15, 17, 31–3, 118.

⁷ R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1933), 53–5; Williams, *A History of Modern Wales*, 219.

⁸ Henderson, *Peirianwyr a Phenseiri Rheilffyrdd Cymru*, 18–39; George G. Lerry, *Henry Robertson: Pioneer of Railways into Wales* (Croesoswallt: Woodalls, 1949); Williams, *Railways in Wales*, 101–3; Lilian Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a

Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Llanbedr Pont Steffan], 1992, 614–22.

⁹ Tegwyn Jones, *Baledi Ywain Meirion* (Y Bala: Llyfrau'r Faner, 1980), 140, 141. Thomas Savin a gododd y gwesty yn Aberystwyth a addaswyd yn gartref i Goleg Prifysgol Cymru, sef 'Yr Hen Goleg' bellach.

¹⁰ Robert Roberts ('Maccwy Môn'), *Can i'r Rheilffordd* (Bangor: A. R. Martin, [1850?]), 2. (Ceir copi o'r daflen sy'n cynnwys y gân yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, a chopi digidol ohoni ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.) Am enghreifftiau o'r trên yn creu cyffro tebyg, gw. Jones, *Baledi Ywain Meirion*, 139; Gwyn Briwnant Jones, *Llinellau Coll* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), 60; D. Tecwyn Lloyd, *Safle'r Gerbydres ac Ysgrifau Eraill* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), 109–10.

¹¹ Jones, *Llinellau Coll*, 54; cf. Lloyd, *Safle'r Gerbydres*, 107–8.

¹² Henderson, *Peirianwyr a Phenseiri Rheilffyrdd Cymru*, 8–11; Jones, *Rheilffyrdd Cymru*, 8–9, 139–44.

¹³ Am enghreifftiau o faledi o'r fath, gw. Jones, *Llinellau Coll*, 20, 44, 50; Tegwyn Jones, *Hen Faledi Ffair* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1971), 24–7; Jones, *Baledi Ywain Meirion*, 136–44; Lilian Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder – Eu Cefndir a'u Cynnwys', traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Llanbedr Pont Steffan], 1989, 457–76; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', 659–85; Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledur* ([Llandysul]: Gwasg Aberystwyth, 1958), 85–9, 140–4; Ben Bowen Thomas, *Baledi Morgannwg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951), 109–11.

¹⁴ Jones, *Hen Faledi Ffair*, 25.

¹⁵ Jones, *Baledi Ywain Meirion*, 136; Jones, *Rheilffyrdd Cymru*, 43; Simmons, *The Victorian Railway*, 339; A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales*, trydydd arg. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1971), 113–16.

¹⁶ Maria Williams, *Can o Glod i J. Lloyd Davies, Yswain, Blaendyffryn, a'i Foneddiges Serchog* (Castellnewydd Emlyn: J. R. Davies, [1857?]); Thomas, *Drych y Baledur*, 89–90; cf. Cymro Bach Cilgerran, *Can Newydd, yn Dangos Allan y Rheilffordd sydd ar Gychwyn o Crymmych [sic] i Aberteifi* ([c. 1880?]). Ceir copi o'r daflen sy'n cynnwys cân Maria Williams a chopi anghyflawn o gân y Cymro Bach yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, a chopïau digidol ohonynt ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

¹⁷ Agorwyd y rhan o'r lein o Bencader i Lanbedr Pont Steffan ar Ddydd Calan 1866, ac yna'r rhan hyd at orsaf 'Strata Florida' ar 1 Medi 1866, ond yr oedd yn 12 Awst 1867 cyn i'r rhan o orsaf 'Strata Florida' i Aberystwyth agor; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder', 453. Gellir tybio, felly, i'r faled gael ei chanu rywbryd ar ôl 1 Medi 1866. Nid yn Ystrad-fllur y mae gorsaf 'Strata Florida', ond tua thair milltir i'r gorllewin, ger pentref Ystradmeurig; ac yn ei faled, dywed Dafydd Jones y byddai, ar ôl disgyn yng ngorsaf 'Strata Florida', yn mynd 'ymlaen i ganu ychydig / I drigolion Ystradmeurig'.

¹⁸ Dafydd Jones o'r New Inn, *Cân Newydd. Yr hon sydd yn rhoddi ychydig o hanes y daith gan y Tren o waelod Penfro i fynu tua Llanbedd a'r cylchoedd* (Pencader: Jones, [1867?]). Fel yn achos y faled sy'n dwyn y pennawd 'Manchester & Milford Railway', adrodd taith o sir

Benfro i Geredigion y mae'r faled hon. Y mae'r trên yn cychwyn yn 'Milford' (sef Neyland, mae'n debyg, a elwid yn 'New Milford' yn y cyfnod hwnnw), ac wrth iddo gyrraedd Caerfyrddin ceir y cyfarwyddyd ('Newid tren') ar ymyl y ddalen, yn arwydd fod angen newid o'r 'South Wales Railway' i'r 'Carmarthen & Cardigan Railway', a redai o Gaerfyrddin i Bencader erbyn 1864. Yna, wrth gyrraedd gorsaf Pencader, ceir y cyfarwyddyd ('Newid Tren') eto, yn arwydd fod angen newid yno i'r 'Manchester & Milford Railway'. Ond yn y faled hon, y mae'r trên yn gorffen, nid yng ngorsaf 'Strata Florida' ond yn Aberystwyth, sy'n golygu i'r faled gael ei llunio rywbryd ar ôl 12 Awst 1867, pan agorwyd y lein o orsaf 'Strata Florida' i Aberystwyth. (Ceir copi o'r daflen sy'n cynnwys y faled yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, a chopi digidol ohoni ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.)

¹⁹ Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder', 472, 457.

²⁰ Gw., er enghraifft, Jones, *Llinellau Coll*, 20; Jones, *Baledi Ywain Meirion*, 143; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder', 458; Thomas, *Baledi Morgannwg*, 111.

²¹ Davies, *Hanes Cymru*, 395–6; David Williams, *A Short History of Modern Wales*, trydydd arg. (Llundain: John Murray, 1971), 102.

²² Ar y bendithion a welai'r baledwyr, gw. er enghraifft, Jones, *Llinellau Coll*, 20, 50; Jones, *Hen Faledi Ffair*, 25–7; Jones, *Baledi Ywain Meirion*, 137–9, 143–4; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder', 455–9, 464, 471–2; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', 621–8, 660–4, 668–72, 677–81; Thomas, *Baledi Morgannwg*, 109–11; Thomas, *Drych y Baledur*, 86–8, 141–4.

²³ Er enghraifft, Jones, *Llinellau Coll*, 20; Jones, *Hen Faledi Ffair*, 26; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Dafydd Jones, Llanybydder', 465; Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', 626–7, 662, 669, 671, 679, 681; Thomas, *Drych y Baledur*, 86–7, 141, 143.

²⁴ Williams, *Railways in Wales*, 41, cf. 44.

²⁵ Gw. W. Meredith Morris, *Famous Fiddlers*, gol. D. Roy Saer ([Caerdydd]: Amgueddfa Genedlaethol Cymru – Amgueddfa Werin Cymru, 1983), 23–5.

²⁶ Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', 681. Er i Levi godi gobeithion pobl Abergwaun, nid felly y byddai, oherwydd er i'r rhan fwyaf o'r lein gael ei chwblhau erbyn canol yr 1850au, byddai'n 1899 cyn gorffen y camau olaf i Abergwaun; Jones a Dunstone, *The Railways of Wales circa 1900*, 167–78.

²⁷ Parry-Jones, 'Astudiaeth o Faledi Levi Gibbon, Thomas Harris a Stephen Jones, yn ogystal â Rhai Baledi Eraill o'r Un Cylch', 679–80.

²⁸ Jones, *Hen Faledi Ffair*, 26.

²⁹ Thomas, *Drych y Baledur*, 89.

³⁰ Robin Gwyndaf, 'Traddodiad yr Hen Bennill a'r Rhigwm yn Uwchaled. Rhan 4', *Allwedd y Tannau* 38 (1979), 89–91; Reginald McGowan, 'The Cerrig-y-Drudion Railway', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 13 (1964), 24–5. (Yr wyf yn ddiolchgar i Robin Gwyndaf am dynnu fy sylw at y rhain.)

³¹ Abel Jones ‘Bardd Crwst’, ‘Can Newydd, fod ein Byd wedi ei Chwildroi’. Ceir copi o’r faled ar daflen yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, a chopi digidol ohoni ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru; hon yw’r ail o’r ddwy gân sydd ar y daflen, yn dilyn ‘Can Newydd am Galedi yr Amserau Presenol’. Gw. hefyd Thomas, *Drych y Baledwr*, 68.

³² D. G. Jones, *Cofiant Cranogwen* (Caernarfon: Undeb Dirwestol Merched y De, [1932]), 83–5. Traddododd Cranogwen ei darlith yn y Dyffryn yr wythnos ganlynol.

³³ Jones, *Llinellau Coll*, 60.

³⁴ John Ceiriog Hughes, *Yr Oriau Olaf*, ail arg. (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1911), 108–9.

³⁵ Ar effeithiau cadarnhaol a negyddol y rheilffordd ar Gymru, gw. Davies, *Hanes Cymru*, 390–6; David W. Howell, ‘The Impact of Railways on Agricultural Development in Nineteenth-Century Wales’, *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 7:1 (Mehefin 1974), 40–62; Rhys, ‘“Yr Haiarnfarch”: Y Rheilffyrdd a’r Cymry yn Ystod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg’; cf. Simmons, *The Victorian Railway*, 369–76.

Mrs Mary Llewelfryn Davies, 1915–2013

Rhidian Griffiths

O dro i dro, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, byddai'r ffôn yn canu a minnau'n ei hateb ac yn clywed llais yn dweud, 'Rhidian? Mary sy 'ma. Tybed allwch chi fy helpu i? Tybed ydych chi'n gwbod rhywbeth am ...?' Byddai'r ymholiadau'n amrywiol iawn, a minnau'n gwneud fy ngorau i'w hateb. Prin y byddai neb yn sylweddoli bod yr ymholydd ymhell yn ei nawdegau: roedd ei llais yn ifanc a'i meddwl yn finio hyd y diwedd.

Ganed Mary Cavell Thomas ym Mhontyberem, sir Gaerfyrddin yn 1915, yr ieuegaf o dri phlentyn Lewis a Mary Thomas, yn iau o bum mlynedd na'i chwaer Amy (Parry-Williams yn ddiweddarach) ac o dair blynedd na'i brawd Madoc. Gan fod Lewis Thomas yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, a chanu penillion yn arbennig, byddai Mary fel ei chwaer a'i brawd yn gystadleuydd cyson mewn eisteddfodau lleol, er na fwynhaodd (meddai hi) lwyddiant Amy ar y llwyfan. Yn wir, fe gollodd y ddwy y wobr gyntaf mewn un gystadleuaeth gerdd dant am fod Mary wedi anghofio'r geiriau. Ond roedd yn nodweddiadol o'i gonestrwydd mai hi ei hun oedd yn dweud y stori honno.

Dilynodd Mary lwybr ei chwaer gan fynd o ysgol Pontyberem i Ysgol Ramadeg y Merched yn Llanelli ac oddi yno i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle y graddiodd gydag Anrhydedd yn y Gymraeg yn 1937. Bu'n athrawes am rai blynyddoedd cyn ei phenodi yn ifanc iawn yn Arolygwr Ysgolion, a gweithio yn sir Feirionnydd yn arbennig. Wedi priodi â'r Athro D. J. Llewelfryn Davies ymsefydlodd yn Aberystwyth, a daeth Rhos-y-corn, Ffordd Ddewi, yn gartref i'r teulu. Ganwyd iddynt ferch, Lynn, a dau fab, Huw a Tomos, a llawenydd mawr i Mary oedd croesawu ei hwyrion a'u hwyresau i'r teulu maes o law. Bu Llewelfryn farw yn 1981 ac Amy yn 1988. Symudodd Mary i hen gartref Amy, sef Wern, Ffordd y Gogledd, ac yno y bu tan ei marwolaeth ar 29 Awst 2013 yn 97 oed.


Yng nghwmni Amy y daeth Mary i gyfarfodydd y Gymdeithas i ddechrau, a pharhaodd yn selog ei chefnogaeth wedi marw Amy; yn wir, prin y collodd

yr un o'r cynadleddau penwythnos dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Cymerai ddiddordeb byw ac effro ym mhob dim o'i chwmpas. Bu'n gyfaill oes i'r NSPCC ac yn gefnogwr brwd i Gymdeithas Gwragedd y Brifysgol, gan ddilyn eu teithiau tramor yn gyson. Bu'n aelod o Gyngor y Brifysgol yn Aberystwyth ac o bwyllgor Cyfeillion y Llyfrgell Genedlaethol ymhlith nifer o weithgareddau eraill. A byddai wrth ei bodd yn chwarae *bridge* bob nos Fawrth. Hyd yn oed yn ei blynyddoedd olaf, pan oedd llesgedd corfforol yn dod i'r amlwg, daliai'n benderfynol ei hysbryd. Yn 2010, ar achlysur canmlwyddiant geni Amy (a fu'n Llywydd y Gymdeithas o 1986 i 1988), cefais y fraint o draddodi'r ddarlith goffa sy'n dwyn ei henw, a chanolbwyntio ar yrfa a chyfraniad Amy ei hunan. Bu Mary yn barod iawn ei chymorth, gan roi imi lawer o wybodaeth am y cefndir teuluol; ac er gwaethaf anawsterau cerdded, mynnodd gyrraedd maes Eisteddfod Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yng Nglyn Ebwy mewn pryd i'r ddarlith – a bod yn bresennol eto yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, pan draddodwyd hi'r eilwaith. Roedd hynny'n nodweddiadol ohoni – ymlyniad cefnogol a phenderfyniad diildio.

Diolch am y fraint o gael ei hadnabod a mwynhau ei chwmni cyhyd.

Adolygiad

Ffion Mair Jones (gol.), *Y Chwyldro Ffrengig a'r Anterliwt: Hanes Bywyd a Marwolaeth Brenin a Brenhines Ffrainc gan Huw Jones, Glanconwy* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), 250tt. £24.99



Pleser yw cael croesawu'r gyfrol hon o'r wasg, sef golygiad o anterliwt Huw Jones ar bwnc y Chwyldro Ffrengig, 1789. Naw mlynedd yn ddiweddarach fe gyhoeddwyd y gwaith mentrus hwn yn Nhrefriw, rhyw ddeuddeg milltir o gartref yr anterliwtiwr o Lanconwy. Ni chadwyd unrhyw gofnod o'r anterliwt yn cael ei pherfformio, ond yr oedd y *genre* yn dal yn boblogaidd ar derfyn y ddeunawfed ganrif.

Teitl llawn yr anterliwt yw 'Gwedd o Chwareyddiaeth, sef Hanes Bywyd a Marwolaeth Brenin a Brenhines Ffrainc ac amryw eraill o'u deiliaid. Hefyd, darluniad o grefydd babaidd a'r modd y darostyngwyd y pabyddion yn y tymestl diweddar, a wnawd gan Huw Jones, Glanconwy'. O dan y teitl, ceir yr englyn a ganlyn:

Ffydd babaidd ffaidd o'i phen – ffydd erchyll,
Ffydd orchwyl aflawen;
Ffydd yw, gwn, ffaidd gynnen,
Ffydd ryw dwyll, ffaidd, ry den.

A'r gair 'ffiaidd' yn cael ei ddefnyddio deirgwaith o fewn pedair llinell, nid rhaid oedi'n hir i weld ar ba ochr y ddadl grefyddol rhwng Catholigion a Phrotestaniaid y saif Huw Jones. Bu dienyddio'r Brenin Louis XVI a'i wraig Marie Antoinette yn rhyddhad os nad yn achos llawenydd i nifer, o ran eu pabyddiaeth ac o ran afradlonedd eu bywyd personol. Ond yn yr anterliwt hon cyflwynir dehongliad cymdeithasol sydd ychydig yn wahanol i'r arfer: nid oes neb yn ddieuog o achosi a pharhau tloedi'r werin bobl, meddir yma. Nid bai'r gwŷr bonheddig a'r llys brenhinol yn Versailles yn unig oedd y prinder a'r angen ond cyfrifoldeb pob unigolyn, boed hwnnw'n loddestwr uchelwrol neu'n un ar fin llwgu ond er hynny'n dilyn y drefn – ac felly yn ei pharhau.

Mae Huw Jones yn dipyn o enigma. Ar y naill law mae'n deyrngar i'r Brenin Siôr III ac yn nodi ei ragoriaethau ynghyd â chryfderau cyfansoddiadol Prydain, tra'i fod ar y llaw arall yn datgan yn agored ei wrthwynebiad cryf i'r elfennau hynny o anghyfiawnder a welai yn natur dosbarth llywodraethol Prydain. Tybed a oedd yn llawn sylweddoli ei fod yn chwarae â thân wrth fynd i'r afael â'r fath themâu? Go brin y byddai testun cyffelyb yn cael gweld golau dydd yn Lloegr heb i'w awdur gael ei gyhuddo o wrthwynebu awdurdod cydnabyddedig y deyrnas. Neu a yw Huw Jones yn cymryd arno'i hun fantell yr anterliwtiwr cafalîr ac yn mynnu'r hawl i ddweud ei ddweud, doed a ddelo?

Atodwyd yng nghefn y gyfrol nifer o faledi a cherddi Huw Jones Glanconwy a chan nad yw'n debygol y cânt eu cyhoeddi mewn man arall, da eu gweld ar gof a chadw yma.

Rhiannon Ifans

TREM YN ÔL



D. Roy Saer, Siân Thomas (Toronto), a Dafydd Idris Edwards, yn union ar ôl urddo Siân yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Dinbych. Diolch i D. Roy Saer am y llun.

Diolchir i Mrs Buddug Lloyd Roberts am y lluniau a ganlyn.



Eisteddfod Caerdydd 1978: Buddug Lloyd Roberts, Ffrances Môn Jones, Emrys Bennett Owen ac Emrys Cleaver (yn y gadair)



Buddug Lloyd Roberts ac Emrys Bennett Owen yn Eisteddfod Caernarfon 1979



Menna Thomas yn difyrru'r cynadleddwyr ym mar Gregynog



Y cynadleddwyr yng Ngregynog yn yr 1980au





Buddug Lloyd Roberts a Dr Rhidian Griffiths yn cynnal sesiwn ganu i blant yn Eisteddfod Tyddewi 2002



Y doethion??

Cynhadledd Fron Olau 2013









* 2206595 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.